# Cwestiwn enghreifftiol SQE2 a thrafodaeth ar yr ateb

Ymchwil gyfreithiol (Ymgyfreitha Troseddol)

Tachwedd 2020

Bydd ymgeiswyr yn cyflawni 16 o asesiadau yn SQE2. Er mwyn pasio SQE2, bydd yn rhaid i ymgeiswyr gael y marc pasio cyffredinol ar gyfer SQE2.

Mae’r cwestiwn enghreifftiol hwn a’r drafodaeth o’r ateb yn enghraifft o asesiad ymchwil cyfreithiol. Asesiad cyfrifiadurol yw hwn, a bydd gan ymgeiswyr 60 munud i gwblhau’r dasg.

I gael rhagor o fanylion, edrychwch ar y Fanyleb Asesu ar gyfer SQE2.

**Noder fod y cwestiynau enghreifftiol yn cael eu darparu i roi syniad o’r math o dasgau y gellid eu gosod i ymgeiswyr. Nid ydynt yn cynrychioli’r holl ddeunydd a gynhwysir yn SQE2. Efallai na fydd cwestiynau yn y dyfodol yn dilyn yr un fformat yn union.**

# Cwestiwn a phapurau ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr

**E-bost at yr Ymgeisydd**

---

**Oddi wrth:** Partner
**Anfonwyd:** 11 Rhagfyr 202#
**Er mwyn:** Ymgeisydd
**Pwnc:** Keith Foster

Ffoniodd cleient newydd, Keith Foster, fi heddiw.

Mae Keith yn bryderus iawn am rywbeth a ddigwyddodd ddoe yn ymwneud â'i gi, Digger. Eglurodd ei fod wedi ateb drws ei dŷ i groesawu postmon a oedd yn cyflwyno parsel. Pan agorodd Keith y drws, rhedodd Digger allan o'r tŷ ac ymosododd ar y postmon yn yr ardd flaen. Ceisiodd y postmon gadw'r ci draw, ond cafodd ei glwyfo wrth i'r ci frathu ei fraich.

Ceisiodd Keith alw'r ci i ffwrdd a'i stopio, ond parhaodd y ci i ymosod ar y postmon. Dim ond pan lwyddodd y postmon i gicio'r ci y llwyddodd Keith i'w roi yn ôl yn y tŷ. Roedd y postmon yn ddig iawn. Gadawodd gan ddweud bod y ci yn beryglus ac y dylid ei ddinistrio. Dywedodd wrth Keith y byddai'n rhoi gwybod i'w gyflogwr am y digwyddiad.

O ganlyniad i'r digwyddiad dywedodd Keith wrtho'i fod swyddog heddlu, wedi cysylltu ag ef yn gynharach heddiw i ofyn iddo fynd i orsaf yr heddlu yfory. Dywedodd swyddog yr heddlu wrth Keith fod cyflogwr y postmon wedi cwyno am ymddygiad ymosodol Digger a'i fod eisiau i'r heddlu ymchwilio i'r digwyddiad. Yn ôl pob tebyg, aeth y postmon i'r ysbyty i gael triniaeth am glwyf cnawd arwynebol. Cafodd y briw ei lanhau a'i bwytho gan feddyg.

Roedd Keith wedi dychryn ac wedi ypsetio'n arw yn ystod ein sgwrs dros y ffôn. Dywedodd wrthyf fod Digger, Ci Defaid Almaenaidd gwrywaidd, yn gi cyfeillgar sydd wedi ei hyfforddi'n dda ac nad yw erioed wedi ymddwyn yn ymosodol.

**Hoffai Keith wybod os ydyw e wedi cyflawni trosedd mewn perthynas â'r digwyddiad yn ymwneud â Digger.**

**Gallet ti ymchwilio i'r ateb i'r cwestiwn hwn, gan ddefnyddio'r ffynonellau a ddarparwyd, ac adrodd yn ôl i mi fel y gallaf baratoi fy nghyngor i Keith. Hoffwn i ti gynnwys, er gwybodaeth i mi, dy resymau cyfreithiol dros grybwyll unrhyw ffynhonnell neu awdurdod allweddol.**

Diolch yn fawr

Partner

**Nodyn i Ymgeiswyr:**

**Dylech roi eich ateb ar y templed a ddarperir[1]. Rhennir y templed yn ddwy adran:**

[1] Ni ddarparwyd fel templed at ddibenion y cwestiynau enghreifftiol. Mae atebion enghreifftiol yn cael eu hysgrifennu ar y templed.

1. **Cyngor i'w roi i'r cleient**

2. **Rhesymu cyfreithiol gan gynnwys ffynonellau neu awdurdodau allweddol**

**Nid oes angen i chi ystyried gorchmynion y gallai llys eu gwneud mewn perthynas â Digger na pha gosbau, os o gwbl, y gallai Keith eu hwynebu.**

**O ystyried cyfyngiadau amser yr asesiad hwn, nid ydym wedi darparu testun llawn rhai o'r ffynonellau gwreiddiol. At ddibenion yr asesiad hwn, lle na ddarperir testun llawn y brif ffynhonnell, gall ymgeiswyr, serch hynny, nodi'r ffynhonnell wreiddiol ar y sail y cyfeirir ati yn un neu ragor o'r ffynonellau eilaidd a ddarperir, a gellir gwirio'r testun llawn yn ddiweddarach.**

*Atodiadau*

Rydych chi wedi cael y ffynonellau a ganlyn, wedi eu rhestru yn nhrefn yr wyddor yn ôl enw'r ffynhonnell. Ni fwriedir i'r drefn gyflwyno fod yn ganllaw i'r drefn y dylid troi atynt.

**NODWCH Y GALL RHAN NEU BOB UN O'R FFYNONELLAU HYN FOD YN AMHERTHNASOL I ATEB Y CWESTIWN**

Atkins Court Forms/Animals V4/Practice/7, paragraffau 7, 9-10, [607, 609-610] (*tt* 5-*7)*

Blackstone's Criminal Practice 2020 B20.5 - B20.9 (*tt* 8-10)

Charlesworth & Percy on Negligence 14th Ed. Rhan IV, Pennod 15, Adran 2, paragraffau 15.07 - 15.13, 15.47 - 15.56 (*tt 11-17*)

Deddf Cŵn Peryglus 1991, adrannau 1-3 *(tudalennau 18-24)*

Deddf Cŵn Peryglus 1991, adran 10 *(tudalennau 25-26)*

Halsbury's Laws, Animals, V2, para 46 (*t 27*)

Deddf Atebolrwydd Deiliaid 1957, adrannau 1-3 (*tt 28-31*)

Rafient v Folines (1997) 161 JP 412 *(tt 32-35)*

Atgynhyrchwyd o LexisLibrary gyda chaniatâd caredig LexisNexis.

Mae’r wybodaeth a ddangosir fel y mae wedi ei chael ar y dyddiad chwilio, er dibenion enghreifftiol yn unig.
Ni ddylid dibynnu ar wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yma y tu allan i ddibenion y cwestiwn enghreifftiol hwn.

Atkin's Court Forms/Animals Vol 4/Practice/7. Tresmasu ac anafiadau a achosir gan gŵn.

**7. Tresmasu ac anafiadau a achosir gan gŵn.**

**[607]**

Mae ceidwad ci yn gwbl atebol am ddifrod a achosir gan y ci hwnnw'n tresbasu ar dir lle nad oes ganddo hawl neu ganiatâd i fod[1].

Gall atebolrwydd am anafiadau neu ddifrod a achosir gan gŵn godi mewn gwahanol ffyrdd:

1. er bod cŵn yn gyffredinol yn rhywogaeth nad yw'n beryglus, gall ci penodol ddod o fewn categori anifail peryglus os oes ganddo nodweddion milain neu ysbeilgar[2]. Mewn achos o’r fath, mae’r ceidwad yn gwbl atebol am ddifrod neu anaf yr oedd y ci yn debygol o’i achosi oni bai ei fod yn cael ei gadw dan reolaeth, ar yr amod ei fod yn gwybod am nodweddion peryglus y ci[3];
2. gall atebolrwydd am niwed a achosir gan gŵn hefyd godi mewn cyfraith gwlad dan esgeulustra neu niwsans[4];
3. mae ceidwad ci yn gwbl atebol pan fydd y ci hwnnw'n achosi difrod drwy ladd neu anafu da byw[5]. Nid yw’n berthnasol a oedd y ceidwad yn gwybod am dueddiad y ci i fynd ar drywydd da byw[6]. Fodd bynnag, mae amddiffyniadau statudol ar gael yn yr achosion a ganlyn:
    - 3.1 pan fo'r difrod yn deillio’n gyfan gwbl o fai ar y person sy'n ei ddioddef (h.y. y person y mae'r da byw yn perthyn iddo)[7]; neu
    - 3.2 os yw'r da byw yn cael eu lladd neu eu hanafu ar dir yr oeddent wedi crwydro arno a bod y ci naill ai'n perthyn i'r deiliad, neu fod ei bresenoldeb ar y tir wedi’i awdurdodi gan y deiliad[8].

Os yw'r difrod yn cael ei achosi gan ddau neu fwy o gŵn yn gweithredu gyda'i gilydd, gellir dal ceidwad pob ci yn atebol fel petai ei gi wedi achosi'r difrod hwnnw i gyd[9].

1 Mae’n ymddangos bod cŵn dof ac anifeiliaid eraill (ac eithrio da byw) yn dal i fod yn ddarostyngedig i’r hen gyfraith gyffredin sy’n mynnu bod perchennog anifail o'r fath yn atebol, os yw'n dianc ac yn tresbasu, am ddifrod o'r fath y mae yn natur yr anifail i'w gyflawni: gweler *Cox v Burbidge* (1863) 13 CBNS 430 at 436, per EALE LJ; *Fardon v Harcourt-Rivington* [1932] All ER Rep 81, 76 Sol Jo 81, HL.

2 Deddf Anifeiliaid 1971, adran 2(2) Gweler paragraff 2, **[602]**. I gael manylion cryno a manylion yr hawliad, gweler Ffurflenni 7, 8, **[657]**, **[658]**.

3 Rhaid profi’r holl elfennau sy’n ofynnol dan Ddeddf Anifeiliaid 1971 adran 2(2) er mwyn i’r ceidwad fod yn atebol. Gweler paragraff 2, **[602]**. Sylwch hefyd, os yw ci yn beryglus, gellir cyflwyno cwyn i’r llys ynadon er mwyn iddo gael ei gadw dan reolaeth neu ei ddinistrio; gweler Ffurflenni 79, 80, **[729]**, **[730]**.

4 Gweler Paragraffau 9, 10, **[609]**, **[610]**.

5 Deddf Anifeiliaid 1971, adran 3. I gael manylion cryno a manylion yr hawliad, gweler Ffurflenni 7, 8, **[657]**, **[658]**.

6 Ar gyfer achos lle honnir bod ci yn anifail peryglus, lle mae’n rhaid pledio gwybodaeth ar ran y ceidwad a’i brofi, gweler paragraff 2, **[602]**.

7 Deddf Anifeiliaid 1971, adran 5(1). Gan hynny, gellir defnyddio'r amddiffyniad hwn os bydd y da byw'n dianc drwy ffens yr oedd ffens yr oedd yn ddyletswydd ar berchennog y da byw i'w chynnal a'i chadw; gweler Paragraff 5, **[605]**.

8 Deddf Anifeiliaid 1971, adran 5(4). Ar gyfer amddiffyniad, gweler Ffurflen 35, **[685]**.

9 *Arneil v Paterson* [1931] AC 560, 100 LJPC 161, [1931] All ER Rep 90, HL.

Atkin's Court Forms/Animals Vol 4/Practice/9. Atebolrwydd am esgeulustod wrth reoli anifeiliaid.

## 9. Atebolrwydd am esgeulustod wrth reoli anifeiliaid.

**[609]**

Ar wahân i'r hawliau gweithredu statudol a drafodwyd yn flaenorol, gall y sefyllfa benodol dan ystyriaeth arwain at weithredu mewn esgeulustod. Mae unigolyn sy'n berchen ar neu'n cadw anifail , boed yn anifail domestig peryglus neu'n ddigon diniwed, o dan ddyletswydd gyffredin i ofalu nad yw ei anifail yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n debygol o anafu ei gymydog[1].

Yn benodol, rhaid i berson sy'n dod ag anifail i briffordd ddefnyddio pob gofal rhesymol i'w atal rhag gwneud niwed i bobl eraill yno. Yn gyffredinol, mae cymryd, gyrru neu gerdded anifeiliaid ar briffordd heb iddynt fod o dan reolaeth ddigonol i atal anaf neu ddifrod i ddefnyddwyr eraill y briffordd yn gyfystyr ag esgeulustod.[2].

Yn unol â hynny, nid yw atebolrwydd am esgeulustod yn codi o beidio â chadw anifail yn ddiogel. Nid yw'n rhan o'r achos o weithredu ac ni ellir trin absenoldeb esgeulustod o'r fath fel amddiffyniad. Mae'r atebolrwydd yn deillio o iddo ddianc o reolaeth y ceidwad gyda'r canlyniad ei fod yn gwneud difrod[3].

*1* *Fardon v Harcourt-Rivington* [1932] All ER Rep 81, (1932) 48 TLR 215 at 217, HL, per LORD ATKIN. Am enghreifftiau, gweler *Draper v Hodder* [1972] 2 QB 556, [1972] 2 All ER 210, [1972] 2 WLR 992, CA; *Jones v Owen* (1871) 24 LT 587; *Sycamore v Ley* [1932] All ER Rep 97, (1932) 147 LT 342, CA. Gweler Ffurflenni 36–38, **[686]–[688]**.

*2* Gweler *Deen v Davies* [1935] 2 KB 282, [1935] All ER Rep 9, CA (tennyn annigonol); *Turner v Coates* [1917] 1 KB 670, [1916–17] All ER Rep 264 (ebol heb ei ddofi wedi ei yrru heb dennyn yn y tywyllwch); *Turnbull v Wieland* (1916) 33 TLR 143 (rheolaeth annigonol dros wartheg); *Aldham v United Dairies (London) Ltd* [1940] 1 KB 507, [1939] 4 All ER 522, CA (ceffyl o natur aflonyddol wedi ei adael heb oruchwyliaeth). Gweler Ffurflenni 36–41, **[686]–[691]**.

3 *Knott v LCC* [1934] 1 KB 126 at 138, CA, per LORD WRIGHT.

Atkin's Court Forms/Animals Vol 4/Practice/10. Niwsans a gweithredoedd eraill.

## 10. Niwsans a gweithredoedd eraill.

**[610]**

Gall perchennog anifail fod yn atebol am niwsans[1] sy'n deillio o gadw'r anifail[2]. Pan all unigolyn brofi ymyrraeth â chysur rhesymol cyfleustra neu annifyrrwch (er enghraifft drwy sŵn[3] neu arogl[4]), gellir caniatáu gwaharddeb i atal y niwsans yn ei achos yn erbyn perchennog neu geidwad yr anifail[5]. Rhaid i'r hawlydd ddangos fod y niwsans penodol:

1. yn rhywbeth nad yw'n fyrdymor;
2. wedi peri iddo ddioddef i raddau mwy nag eraill; ac
3. yn uniongyrchol yn ei effaith ac nid dim ond canlyniadol 6.

Pan wneir hawliad o’r fath, rhaid i’r manylion nodi a yw’r waharddeb yn ymwneud ag eiddo preswyl a nodi’r tir drwy gyfeirio at gynllun, os oes angen[7].

Gall y perchennog hefyd fod yn atebol am dresmasu[8], neu fel deiliad[9], neu o bosibl o dan y dyfarniad yn *Rylands v Fletcher*[10]. Fodd bynnag, mae gweithredoedd o dan y camweddau hyn yn codi mor anaml fel eu bod o ddiddordeb academaidd yn unig. Os oes un o’r camweddau hyn yn berthnasol, mae’n fwy tebygol bod atebolrwydd hefyd o dan y camweddau statudol[11], esgeulustod neu niwsans.

1. Gweler ACF VOL 28(2) (2020 ISSUE) Niwsans yn gyffredinol. Gweler Ffurflenni 42–45, **[692]–[695]**.
2. *Pitcher v Martin* [1937] 3 All ER 918.
3. E.e. ci yn cyfarth yn hwyr yn y nos. Gweler *Leeman v Montagu* [1936] 2 All ER 1677; *Ball v Ray* (1873) 8 Ch App 467, 37 JP 500; *Broder v Saillard* (1876) 2 Ch D 692, 40 JP 644. Gweler Ffurflenni 42–45, **[692]–[695]**.
4. *Rapier v London Tramways Co* [1893] 2 Ch 588, CA.
5. *A-G (on the relation of Glamorgan County Council and Pontardawe RDC) v PYA Quarries Ltd* [1957] 2 QB 169, [1957] 1 All ER 894, [1957] 2 WLR 770. Ar gyfer gwaharddebau gweler ACF VOL 23 (1) (2016 ISSUE) INJUNCTIONS.
6. *Benjamin v Storr* (1874) LR 9 CP 400.
7. CPR PD 16 para 7.1.
8. E.e. os yw ci wedi ei annog yn fwriadol i ymosod ar rywun, neu os yw da byw yn cael eu gyrru’n fwriadol ar dir rhywun arall. Gweler ACF VOL 40(1) (2019 ISSUE) TRESPASS TO THE PERSON and ACF VOL 40(1) (2019 ISSUE) TRESPASS TO LAND.
9. Hynny yw, o dan Ddeddf Atebolrwydd Deiliaid 1957.
10. Mae’n ymddangos bod y gofyniad o dan y rheol bod tir yn cael ei ddefnyddio mewn modd annaturiol yn cyfyngu’n ddifrifol ar gymhwyso *Rylands v Fletcher* i anifeiliaid: see ACF VOL 28(2) (2020 ISSUE) NUISANCE; *Rylands v Fletcher* (1868) LR 3 HL 330.
11. Hynny yw, dan Ddeddf Anifeiliaid 1971. Gweler Paragraffau 2–8, **[602]**–**[608]**

©Oxford Publishing Limited. Mae Westlaw wedi cael gafael ar y ffynhonnell hon. Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Oxford Publishing Limited.

Mae'r wybodaeth a ddangosir fel y mae wedi ei chael ar y dyddiad chwilio, er dibenion enghreifftiol yn unig. Ni ddylid dibynnu ar wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yma y tu allan i ddibenion y cwestiwn enghreifftiol hwn.

# Troseddau dan Ddeddf Cŵn Peryglus 1991

Blackstone's Criminal Practice 2020
Awduron: David Ormerod CF (Hon); David Perry CF Prif
Waith Gwreiddiol
Rhan B - Troseddau
Pennod B20 - Troseddau'n Ymwneud â Chŵn Peryglus a Throseddau Lles
Anifeiliaid dan Ddeddf Cŵn Peryglus 1991

# Methu â Chadw Cŵn dan Reolaeth Briodol

B20.5 Cafodd y troseddau o beidio â chadw ci dan reolaeth lwyr eu diwygio'n sylweddol gan ABCPA 2014, gan ddod i rym ar 13 Mai 2014. Roedd y prif welliant yn ymwneud â diddymu adran 3(3) a'r angen i unrhyw drosedd ddigwydd mewn man cyhoeddus neu mewn man lle na chaniateir i'r ci fod. Fodd bynnag, gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer achosion 'deiliad tŷ' sy'n ymwneud â thresmaswyr neu dresmaswyr tybiedig mewn annedd.

Adran 3

## Deddf Cŵn Peryglus 1991, adran 3

(1) Os yw ci allan o reolaeth ac yn beryglus mewn unrhyw fan yng Nghymru neu Loegr (p'un a yw'n fan cyhoeddus ai peidio)—

(a) mae'r perchennog; ac

(b) os yw'n wahanol, y sawl sy'n gyfrifol am y ci ar y pryd, yn euog o drosedd, neu, os yw'r ci, tra'i fod allan o' reolaeth, yn anafu unrhyw un neu gi cymorth, yn euog o drosedd waethygedig, o dan yr is-adran hon.

(1A) Nid yw person ('D') yn euog o drosedd o dan is-adran (1) mewn achos sy'n achos cartref.

(1B) At ddibenion is-adran (1A) mae 'achos deiliad tŷ' yn achos—

(a) lle mae'r ci allan o reolaeth ac yn beryglus tra'i fod mewn adeilad neu'n rhannol mewn adeilad, neu mewn rhan o'r adeilad, sy'n annedd neu'n llety lluoedd arfog (neu'r ddau beth hyn), ac

(b) ar yr adeg honno—

(i) bod y person y mae'r ci sydd allan o reolaeth ac yn beryglus ('V') mewn perthynas ag ef yn yr adeilad, neu os yw'n mynd i mewn i'r adeilad neu rhan o'r adeilad fel tresbaswr, neu

(ii) Os oedd D (os oedd yn bresennol bryd hynny) yn credu bod V yn yr adeilad, neu'n mynd i'r adeilad neu ran ohono, fel tresmaswr.

Mae adran 76(8B) i (8F) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (defnyddio grym mewn man preswylio [gweler A3.58]) yn gymwys at ddibenion yr is-adran hon fel y maent yn gymwys at ddibenion is-adran (8A) o'r adran honno (ac at y dibenion hynny mae'r cyfeiriad yn adran 76(8D) at is-adran (8A)(d) i'w ddarllen fel pe bai'n gyfeiriad at baragraff (b)(ii) o'r is-adran hon).

(2) Mewn achos cyfreithiol am drosedd o dan is-adran (1) uchod yn erbyn person sy'n berchennog ar gi ond nad oedd ar yr adeg berthnasol yn gyfrifol amdano, bydd yn amddiffyniad i'r cyhuddedig brofi bod y ci ar yr adeg berthnasol yng ngofal person y credai'n rhesymol ei fod yn berson addas a phriodol i fod yn gyfrifol amdano

# Dedfryd

B20.6

Adran 3

## Deddf Cŵn Peryglus 1991, adran 3

(4) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1) uchod ac eithrio trosedd waethygedig yn agored ar gollfarn ddiannod i garchar am gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis neu [ddirwy anghyfyngedig] neu'r ddau; ac mae person sy'n euog o drosedd waethygedig o dan yr is-adran honno yn agored—

(a) ar gollfarn ddiannod, i garchar am gyfnod heb fod yn fwy na chwe mis neu [dirwy anghyfyngedig] neu'r ddau;

(b) ar gollfarn ar dditiad, i garchar am gyfnod nad yw'n fwy na'r uchafswm perthnasol a bennir yn is-adran (4A) neu ddirwy neu'r ddau.

(4A) At ddibenion is-adran (4)(b), yr uchafswm perthnasol yw—

(a) 14 mlynedd os bydd person yn marw o ganlyniad i gael ei anafu;

(b) 5 mlynedd mewn unrhyw achos arall pan gaiff person ei anafu;

(c) 3 blynedd mewn unrhyw achos lle mae ci cymorth wedi ei anafu (p'un a yw'n marw ai peidio).

Mae'r canllaw dedfrydu diffiniol diwygiedig ar Droseddau Cŵn Peryglus (gweler Atodiad, SG21-1) yn berthnasol i bob troseddwr 18 oed a throsodd a ddedfrydwyd ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2016. Mae'r canllawiau'n berthnasol, ymysg pethau eraill , i'r troseddau o dan adran 3(1) sy'n denu'r cosbau uchaf gwahanol a nodir yn adran 3(4) a (4A).

### Dyfarniad Amgen

B20.7

Pan gaiff D ei gyhuddo ar dditiad o drosedd waethygedig, nid yw'n agored i reithgor gael D yn euog o drosedd syml (heb ei gwaethygu) oherwydd, yn ôl adran 3(4), mae trosedd o'r fath yn drosedd diannod yn unig ac nid yw wedi'i phennu at ddibenion CLA 1967, s. 6(3) (*Williams [2011] EWCA Crim 1716*).

## Actus Reus

B20.8 Ac eithrio pan fo adran 3(1A) yn berthnasol (‘achosion deiliad tŷ’) ac ar yr amod yr honnir bod y drosedd wedi digwydd ar ôl 1 Hydref 2014 (gweler B20.5), nid yw’n berthnasol mwyach a yw ci allan o reolaeth ar eiddo’r perchennog neu yn rhywle arall. Gellir cyflawni trosedd waethygedig yn awr lle mae ci D, er enghraifft, yn brathu ymwelydd y tu mewn i’w dŷ, postmon yn cerdded ar ei lwybr ffrynt, neu rywun yn dwyn mefus yn ei ardd. Gweler, e.e., *Blake v CPS [2017] EWHC 1608 (Admin)*.

Mae’r cwestiwn a yw rhywun heblaw’r perchennog ‘yn gyfrifol’ am y ci yn un o ffaith a gradd, ac fel arfer dylid gadael y mater hwnnw i’r rheithgor *(Rawings [1994] Crim LR 433).* Gall mwy nag un bod yn gyfrifol am gi ar unrhyw adeg benodol (*L v CPS [2010] EWHC 341 (Admin)*). O ran cwmpas yr amddiffyniad o dan adran 3(2), gweler *Huddart [1999] Crim LR 568*.

Gall y troseddau a grëir gan adran 3(1) gael eu cyflawni gan y perchennog (yn ddarostyngedig i amddiffyniad adran 3(2) a’r person sy’n gyfrifol am y ci. Nid yw’r perchennog wedi ei eithrio rhag atebolrwydd dim ond am fod rhywun arall yn gyfrifol am y ci ar y pryd.

O dan adran 3, mae’r math o gi yn amherthnasol; mae’n ddigon i ddangos ei fod allan o reolaeth ac yn beryglus. Mae adran 10(3) yn darparu:

> Adran 10
>
> ... ystyrir bod ci allan o reolaeth ac yn beryglus ar unrhyw achlysur lle mae sail resymol dros gredu y bydd yn anafu unrhyw berson neu gi cymorth, p’un a yw'n gwneud hynny ai peidio, ond nid yw cyfeiriadau at gi sy'n anafu person neu fod sail dros bryder rhesymol y bydd yn gwneud hynny yn cynnwys cyfeiriadau at unrhyw achos lle mae’r ci yn cael ei ddefnyddio at ddiben cyfreithlon gan gwnstabl neu berson yng ngwasanaeth y Goron.

Cyflwynir bod yn rhaid cyfyngu cyfeiriadau at gŵn sy’n anafu pobl, yn y cyd-destun hwn, i frathu ac ati, a achosir yn uniongyrchol gan gŵn, ac na ddylent gynnwys anafiadau traffig a achosir yn anuniongyrchol gan gŵn sy’n rhedeg yn rhydd ar ffordd, ond nid yw’r pwynt wedi ei benderfynu eto yn y llysoedd.

Gall ci fod allan o reolaeth ac yn beryglus hyd yn oed pan fydd ar dennyn, os na all ei driniwr ei reoli na’i atal yn iawn (*Gedminintaite [2008] EWCA Crim 814*). Yn ôl adran 10(3) dim ond pan fo’r ci’n ymddwyn yn y fath fodd fel bod ‘sail resymol dros bryderu y bydd yn anafu unrhyw berson neu gi cymorth’, ond yn *Rafiq v DPP (1997) 161 JP 412* dyfarnwyd, hyd yn oed os bydd ci yn brathu heb rybudd, ‘mae hyn ynddo’i hun yn gallu bod yn ymddygiad sy’n rhoi sail dros bryder rhesymol am anaf.’. Mae unrhyw un sy’n dyst iddo yn debygol o ofni y bydd yn achosi niwed pellach.

Hyd yn oed os yw’n ymddangos yn debygol y gallai ci anafu rhywun, rhaid rhoi ystyr naturiol i’r geiriau ‘allan o reolaeth ac yn beryglus’. Er enghraifft, os bydd X yn pryfocio ci Y mewn ffordd greulon a gwirion, gall fod yn amlwg i unrhyw un sy’n gwylio fod X yn debygol o gael ei frathu oni bai ei fod yn ymatal, ond nid yw’n dilyn bod y ci allan o reolaeth.

Os yw’r ci yn eiddo i berson dan 16 oed, mae adran 6 (gweler B20.4) yn gymwys.

## Atebolrwydd Caeth

B20.9

Mae’n amlwg bod adran 3 yn gosod atebolrwydd caeth. Fe’i deddfwyd am resymau diogelwch cyhoeddus, a byddai’n llawer anoddach i’w orfodi pe bai’n rhaid profi elfen o fai, megis esgeulustod, yn erbyn perchennog neu driniwr ci sydd allan o reolaeth. ac yn beryglus. Felly, mae’n rhoi’r cyfrifoldeb yn llwyr ar berchnogion cŵn, ac ati, i sicrhau bod eu cŵn yn cael eu cadw dan reolaeth (*Bezzina [1994] 3 All ER 964*). Ond, er bod y ddarpariaeth hon yn creu trosedd o ‘atebolrwydd amgylchiadol’ ac nad yw’n nodi sut na pham y gallai’r ci fod allan o reolaeth, gwrthododd y Llys Apêl yn *Robinson-Pierre [2013] EWCA Crim 2396, [2014] 1 WLR 2368* ddadl bod y Senedd yn bwriadu i atebolrwydd fod yn absoliwt, ‘yn yr ystyr y gallai atebolrwydd troseddol ddilyn, er gwaethaf absenoldeb unrhyw weithred neu anwaith gan y diffynnydd sy’n cyfrannu at faterion a waherddir’. Yn hytrach, mae’r drosedd yn gofyn am ‘brawf o weithred neu anwaith gan y diffynnydd (gyda neu heb fai) a achoswyd neu a ganiataodd i’r sefyllfa waharddedig ddigwydd’ (yn achos Pitchford LJ yn [42]). Mae’n dilyn na ellir cael diffynnydd yn euog yn briodol os oedd y ci dan sylw wedi colli rheolaeth o ganlyniad i weithredoedd trydydd parti neu anweithiau na achoswyd ganddo ac nad oedd ganddo unrhyw bŵer i’w rheoli na’u hatal.

# Adran 2. - Atebolrwydd Caeth am Ddifrod a Wnaed gan Anifeiliaid yn Gyffredinol

Charlesworth & Percy on Negligence 14th Ed.
Consolidated Mainwork Incorporating Second Supplement
Part IV - Absolute or Strict Liability
Pennod 15 - Anifeiliaid
Adran 2. - Atebolrwydd Caeth am Ddifrod a Wnaed gan Anifeiliaid yn Gyffredinol

Atgynhyrchwyd gan Westlaw gyda chaniatâd caredig Sweet & Maxwell. Mae'r wybodaeth a ddangosir fel y mae wedi ei chael ar y dyddiad chwilio, er dibenion enghreifftiol yn unig.
Ni ddylid dibynnu ar wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yma y tu allan i ddibenion y cwestiwn enghreifftiol hwn.

## 15-07 Atebolrwydd am ddifrod a wneir gan anifeiliaid peryglus[25]

Disgrifiwyd Adran 2 Deddf 1971 gan yr Arglwydd Denning MR, a oedd (yn gywir) yn rhagweld "nifer o anawsterau yn y dyfodol", fel adran "wedi ei geirio'n drwsgl."[26] Dywedodd yr Arglwydd Nicholls:
"Pwrpas Deddf Anifeiliaid 1971 oedd symleiddio'r gyfraith …. Yn anffodus, mae iaith adran 2(2) ynddi ei hun yn aneglur. Yn yr achos hwn, mae aidd y drafftiwr seneddol dros fod yn gryno wedi arwain at aneglurder. Dros y blynyddoedd mae adran 2(2) wedi denu llawer o feirniadaeth farnwrol."[27]

15-08 Mae adran 2 o Ddeddf 1971 yn disodli rheolau'r gweithredu bwriadol ac yn darparu:

Adran 2

**"(1)** Pan fo unrhyw ddifrod yn cael ei achosi gan anifail sy'n perthyn i rywogaeth beryglus, mae unrhyw un sy'n geidwad yr anifail yn atebol am y difrod, ac eithrio fel y darperir fel arall gan y Ddeddf hon.

**(2)** Pan fo difrod yn cael ei achosi gan anifail nad yw'n perthyn i rywogaeth beryglus, mae ceidwad yr anifail yn atebol am y difrod, ac eithrio fel y darperir fel arall gan y Ddeddf hon—

**(a)** os yw'r difrod o fath y mae'r anifail, oni bai ei fod wedi'i atal, yn debygol o'i achosi neu a oedd, os caiff ei achosi gan yr anifail, yn debygol o fod yn ddifrifol; a

**(b)** bod y difrod, neu'r tebygolrwydd y byddai'n ddifrifol, wedi ei achosi gan nodweddion yr anifail nad ydynt fel arfer i'w cael mewn anifeiliaid o'r un rhywogaeth[28] neu nad ydynt fel arfer yn cael eu canfod felly ac eithrio ar adegau penodol neu mewn amgylchiadau penodol; ac

**(c)** bod y nodweddion hynny'n hysbys i'r ceidwad hwnnw neu a oedd ar unrhyw adeg yn hysbys i berson a oedd ar y pryd yn gyfrifol am yr anifail fel gwas y ceidwad hwnnw neu, os yw'r ceidwad hwnnw'n bennaeth yr aelwyd, yn hysbys i geidwad arall yr anifail sy'n aelod o'r aelwyd honno ac o dan 16 oed."

## 15-09 Rhywogaethau peryglus

Gwelir bod gwahaniaeth yn cael ei wneud rhwng anifeiliaid o rywogaeth beryglus ac anifeiliaid eraill. Ni wneir unrhyw ymgais i ddiffinio "anifail" fel y cyfryw. Yn ôl adran 6(2) o Ddeddf 1971 diffinnir *rhywogaeth beryglus* fel rhywogaeth[29]—

© 2020 Thomson Reuters.

Adran 6

**““(a)** nad yw'n cael ei ddofi'n gyffredin yn Ynysoedd Prydain; a

**(b)** y mae gan anifeiliaid sydd wedi tyfu’n llawn nodweddion o’r fath fel arfer y maent yn debygol, oni chânt eu hatal, o achosi difrod difrifol, neu fod unrhyw ddifrod y gallant ei achosi yn debygol o fod yn ddifrifol.

15-10 Mater o gyfraith yn unig yw a yw rhywogaeth benodol o anifeiliaid yn beryglus ai peidio[30]:

“y rheswm pam mai mater o gyfraith yw hyn ac nid mater o ffaith yw oherwydd ei fod yn fater y mae’n rhaid cymryd hysbysiad barnwrol yn ei gylch. O’i fformiwleiddio, mae’r athrawiaeth wedi bwrw ymlaen â’r dybiaeth bod y wybodaeth am ba fathau o anifeiliaid sy'n ddof a’r rhai sy’n ffyrnig yn wybodaeth gyffredin. Mae tystiolaeth yn dderbyniadwy, os o gwbl, dim ond ar y sail y gallai’r barnwr ddymuno hysbysu ei hun.”[31]

Yn unol â hynny, ym mhob achos rhaid dod i benderfyniad yn gyntaf ynghylch y categori - peryglus neu fel arall -
15-11 mae'r anifail yn perthyn iddo. Mae’r ateb yn bwysig iawn oherwydd, os yw adran 2(1) yn berthnasol, mae cyflwr gwybodaeth y ceidwad am nodweddion yr anifail yn amherthnasol, a dylai prawf o atebolrwydd ar ran parti a anafwyd fod yn syml. O dan adran 2(2) rhaid i’r hawlydd sefydlu pob un o’r materion a nodir yn is-adrannau (a), (b) ac (c).

15-12 Barnwyd bod eirth,[32] eliffantod,[33] a llewod[34] i gyd yn rhywogaethau peryglus yn ôl y gyfraith gyffredin. Roedd rhywfaint o amheuaeth ynghylch gwenyn.[35] Nid yw cŵn, hyd yn oed ci Rottweiler 50kg,[36] yn beryglus,[37] er bod Deddf Cŵn Peryglus 1991 yn gosod cosbau troseddol ar y rhai sy’n methu â dilyn mesurau diogelu penodol mewn perthynas â bridiau penodedig sy’n adnabyddus am eu nodweddion ymosodol.[38] Os yw’r anifail yn perthyn i rywogaeth beryglus, mae’n amherthnasol a oedd y ceidwad naill ai ddim yn gwybod fod yr anifail yn beryglus neu’n credu bod yr anifail yn ddof.[39] Nid yw’n amddiffyniad bod y difrod wedi digwydd oherwydd bod yr anifail wedi ei dd

# Rhywogaethau nad ydynt yn beryglus[41]

Effaith adran 2(2) o Ddeddf 1971 yw, er mwyn sefydlu atebolrwydd, bod yn rhaid i hawlydd a anafwyd profi pob
15-13 un o dair

elfen yr is-adran fel y nodir uchod.[42] Yn *Curtis v Betts*,[43] pwysleisiwyd y dylid edrych ar bob rhan o’r is-adran yn ei thro.

**...**

ychryn yn sydyn ac nad oedd unrhyw duedd ffyrnig yn ei gymeriad.[40]

Sampl: ymchwil gyfreithiol (Cwestiwn a phapurau ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr)
© 2020 Thomson Reuters.

# Amddiffyniadau'r ceidwad: yn ôl y gyfraith gyffredin

15-47 Er, yn ôl cyfraith gwlad, ystyriwyd bod atebolrwydd am ddifrod a achosir gan anifeiliaid yn debyg i atebolrwydd dan *Rylands v Fletcher*,

roedd rhywfaint o amheuaeth ynghylch i ba raddau roedd yr un amddiffyniadau yn berthnasol.[129] Fodd bynnag, roedd bob amser yn amddiffyniad i brofi bod y sawl a anafwyd wedi peri i'r difrod ddigwydd iddo’i hun naill ai drwy ymyrryd â’r anifail neu’n fwriadol neu’n fyrbwyll fynd yn rhy agos at gawell yr anifail peryglus,[130] gan wybod yn iawn ei fod yn beryglus.[131]

# Enghreifftiau

15-48 Nid oedd perchennog sebra yn atebol pan oedd yn cadw ei anifeiliaid yn ddiogel mewn stabl, ond aeth yr hawlydd i mewn i’r stabl ac, wrth anwesu un o’r anifeiliaid, cafodd ei gicio ganddo i mewn i’r stondin nesaf, lle brathodd sebra arall ef.[132] Ar ôl gweld sigarét a oedd yn mudlosgi ar wellt, dringodd un o weithwyr y diffynyddion, nad oedd yn cael ei gyflogi i ofalu am yr anifeiliaid, dros rwystr a oedd yn gwahanu cawell llewpart oddi wrth y rhan yr oedd gan y cyhoedd fynediad ati, ac fe’i brathwyd, ni phennwyd yr atebolrwydd.[133] Pan geisiodd plentyn chwarae gyda chi o duedd ddrygionus hysbys ac y brathwyd y plentyn o ganlyniad, methodd yr hawliad.[134]

# Amddiffyniadau’r ceidwad: dan y statud

Mae Adran 2 y Ddeddf Anifeiliaid yn gosod atebolrwydd “ac eithrio fel y darperir fel arall” ac mae’r eithriadau
15-49 statudol i atebolrwydd wedi eu nodi yn adran 5: (i) bai’r hawlydd; (ii) derbyn y risg yn wirfoddol; (iii) yr hawlydd fel tresmaswr. Nid yw amddiffyniadau eraill, dan gyfraith gwlad, ar gael bellach.

## Bai ac esgeulustod cyfrannol yr hawlydd

O dan adran 5(1), “nid yw person yn atebol o dan adran[nau]… o’r Ddeddf hon am unrhyw ddifrod sy’n deillio’n gyfan gwbl o fai’r person sy’n ei ddioddef.” Yng ngoleuni darpariaethau adran 10[135] a’r diffiniad o fai, fel rhai sydd
15-50 â “yr un ystyr ag yn Neddf Diwygio’r Gyfraith (Esgeulustod Cyfrannol) 1945” a geir yn adran 11, gall y llys ddosrannu difrod lle mae’r hawlydd wedi ei ddal yn rhannol ar fai am y difrod. Canfuwyd bod unigolyn mewn digwyddiad marchogaeth a oedd yn marchogaeth yn rhy ymosodol ac yn rhy agos at y ceffyl o’i flaen, ar fai yn llwyr pan roddodd y ceffyl o’i flaen gic ac achosi anaf.[136]

## Yr hawlydd yn derbyn y risg yn wirfoddol

15-51 Mae Adran 5(2) o Ddeddf 1971 yn darparu fel a ganlyn:

Adran 5

© 2020 Thomson Reuters.

**“(2)** Nid yw person yn atebol o dan adran 2 o’r Ddeddf hon am unrhyw ddifrod a ddioddefir gan berson sydd wedi derbyn y risg honno’n wirfoddol.[137]”

“Mae geiriau adran 5(2) mewn iaith ddealladwy a rhaid rhoi eu hystyr arferol iddynt a pheidio â chael eu cymhlethu gan fân wahaniaethau neu drwy gyfeirio at hen athrawiaeth volenti cyfraith gyffredin ... yr hyn y mae'n rhaid ei brofi er mwyn dangos bod rhywun wedi derbyn y risg o'i wirfodd yw eu bod (1) yn llawn sylweddoli beth yw’r risg, a (2) fe wnaethant wynebu’r risg honno.”[138]

Yn unol â hynny, pe bai person yn ymyrryd i wahanu ei gi mewn brwydr â chi arall, gallai ddisgwyl i’r amddiffyniad hwn gael ei godi yn ei erbyn.[139] Pan fo hawlydd wedi tresmasu’n fwriadol mewn iard sgrap yn y nos, er ei fod yn ymwybodol bod ci gwarchod Alsatian yn patrolio’r adeilad, mynnwyd ei bod wedi derbyn y risg o anaf yn wirfoddol.[140] Pan ddywedodd marchog profiadol y byddai’n dal i reidio ceffyl ar ôl cael ei thaflu oddi arno pan neidiodd y ceffyl cyn hanner carlamu, sef nodwedd y rhybuddiwyd hi oedd yn perthyn i’r ceffyl, cymerwyd ei bod hi wedi derbyn y risg o syrthio pan wnaeth y ceffyl ymddwyn yn y modd hwnnw eto.[141] Mae’n debyg bod rhywun sy’n cael ei rhybuddio gan driniwr cŵn yr heddlu i “sefyll yn llonydd neu bydd ci yn cael ei anfon” yn cael ei weld fel rhywun a oedd wedi derbyn yn wirfoddol y risg o gael ei frathu os anwybyddwyd rhybudd clir o’r fath.[142] Pan afaelodd yr hawlydd â chi Boxer a allai fod wedi bod yn ceisio dianc o’r adeilad, canfuwyd ei fod wedi derbyn yn wirfoddol y risg y gallai’r anifail deimlo dan fygythiad drwy hynny, a cheisio amddiffyn ei hun drwy frathu.[143] Roedd person a glipiodd geffyl a oedd yn ei gofal, er bod rhywun wedi dweud wrtho am beidio â gwneud hynny, yn derbyn o’i wirfodd y risg y gallai’r ceffyl ymateb yn wael..[144] “Os bydd yr hawlydd, gan wybod am y risg sy’n digwydd wedyn, yn mynd ymlaen i ymgysylltu â’r anifail, bydd ei hawliad o dan y Ddeddf yn cael ei drechu. Nid yw’n un o ragofynion amddiffyniad adran 5 (2) y dylai’r hawlydd ragweld faint yn union o egni y bydd yr anifail yn ei ddefnyddio i ddelio â’i ymddygiad nodweddiadol. Gall anifeiliaid weithredu y tu hwnt i reddf neu’n fyrbwyll ac ni ellir rhagweld eu hymddygiad yn union o reidrwydd.”[145]

15-52 Gwnaed newid pwysig i’r gyfraith gyffredin gan adran 6(5) o Ddeddf 1971 sy’n darparu:

Adran 6

“Os bydd person sy’n cael ei gyflogi fel gwas gan geidwad anifail yn wynebu risg sy’n gysylltiedig â’i gyflogaeth, ni fydd yn cael ei drin fel pe bai’n ei dderbyn yn wirfoddol.”

Mae’r amddiffyniad o volenti, a oedd ar gael yn flaenorol[146] i gyflogwr, yn cael ei ddileu drwy hynny, hyd yn oed mewn achos lle mae’r hawlydd wedi cael ei gyflogi’n benodol at ddiben sy’n cynnwys dod yn agos at anifail peryglus.[147]

## Yr hawlydd fel tresmaswr

15-53 Yn ôl Adran 5(3) o Ddeddf 1971:

Adran 5

Nid yw person yn atebol o dan adran 2 o’r Ddeddf hon am unrhyw ddifrod a achosir gan anifail a gedwir ar unrhyw eiddo neu strwythur i unigolyn sy’n tresmasu yno, os profir naill ai—

**(a)** nad oedd yr anifail yn cael ei gadw yno er mwyn diogelu personau neu eiddo; neu

**(b)** (os oedd yr anifail yn cael ei gadw yno er mwyn diogelu personau neu eiddo) nad oedd ei gadw yno at y diben hwnnw yn afresymol.”

© 2020 Thomson Reuters.

15-54 Yn *Cummings v Grainger*,[148] roedd yr Arglwydd Denning MR o'r farn, gan fod y defnydd o gŵn gwarchod wedi ei gydnabod ers amser maith fel cam rhesymol i ddiogelu eiddo dan y gyfraith gyffredin, nad oedd yn afresymol i'r diffynyddion fod wedi gwarchod eu iard sgrap, a oedd wedi ei amgylchynu gan waliau a ffens weiren, yn ystod y nos gan gi gwarchod Alsatian a oedd yn cael crwydro o gwmpas yn rhydd o fewn cyfyngiadau'r eiddo.[149]

15-55 Er na all tresmaswr, felly, ddibynnu'n gyffredinol ar atebolrwydd caeth dan adran 2, mae'n bosibl y bydd dewis i gymryd camau am iawndal ar sail esgeulustod.[150] Yn ddiau, os bydd yr hawliad yn llwyddo, bydd yr iawndal y gellir ei adennill yn cael ei leihau am esgeulustod cyfrannol. Os nad oedd modd rhagweld presenoldeb tresmaswr, byddai ceidwad anifail wedi ei ddofi sy'n perthyn i rywogaeth beryglus, fel tsimpansî neu cheetah, yn osgoi atebolrwydd o dan y Ddeddf ac o ran esgeulustod pe bai'r tresmaswr yn cael ei anafu, o ganlyniad i ymosodiad gan yr anifail tra'r oedd ar dir y ceidwad.

# Cyfyngu ar weithredu

15-56 Yn y lle cyntaf, y cyfnod cyfyngu ar gyfer hawliad dan adran 2(2) o Ddeddf 1971 yw chwe blynedd, er bod rhaid trin y penderfyniad yn ofalus mewn perthynas â hawliadau am anaf personol.[151]

### Troednodiadau

25 Gweler *Begley, "Who let the dogs out?" 2002 H. & S.L., 2(2), 10*; *Regan, "Mad dogs and English law" 155 SJ (10)*
26 *12*. *Cummings v Grainger [1977] Q.B. 397* yn 404. Disgrifiodd Ormrod LJ adran 2(2)(b) fel un "nodedig o anrhyloyw" yn 407 a gwelir beirniadaeth debyg yn *Curtis v Betts [1990] 1 W.L.R. 459, CA*, paragraff15-14 a *Gloster v Chief Constable of Greater Manchester Police [2000] P.I.Q.R. P114, CA*, lle nododd Pill LJ, yn 117, nad oedd drafft Comisiwn y Gyfraith, Law Com.13, wedi cael ei ddilyn. Gweler ymhellach baragraffau 15-14.
27 *Mirvahedy v Henley [2003] 2 A.C. 491* yn 517, paragraff [9]. Disgrifiodd Maurice Kay LJ y drafftio fel rhywbeth "grotesg": *Turnbull v Warrener [2012] EWCA Civ 412; [2012] P.I.Q.R. P16* yn [4].
28 Gweler *Hunt v Wallis [1994] P.I.Q.R. P128*, gweler fn.48.
29 Mae adran 11 o Ddeddf 1971 yn diffinio *rhywogaethau* fel rhai sy'n cynnwys "isrywogaethau ac amrywogaethau."
30 *Filburn v People's Palace and Aquarium Co (1890) 25 Q.B.D. 258*; *Mason v Keeling (1699) 12 Mod. 332* yn 355; *Besozzi v Harris (1858) 1 F. & F. 92*.
31 gweler Devlin J yn *Behrens v Bertram Mills Circus Ltd [1957] 2 Q.B. 1* yn 15, 16. cf. dull Scrutton LJ in *Glanville v Sutton [1928] 1 K.B. 571, 575*.
32 *Besozzi v Harris (1858) 1 F. & F. 92*. Gweler hefyd *Wyatt v Rosherville Gardens (1886) 2 T.L.R. 282*; *Pearson v Coleman Brothers [1948] 2 K.B. 359*.
33 *Filburn v People's Palace and Aquarium Co (1890) 25 Q.B.D. 258*. Gweler hefyd, *Behrens v Bertram Mills Circus Ltd [1957] 2 Q.B. 1* fn.40; gweler yr Arglwydd Simonds yn *Read v J. Lyons & Co Ltd [1947] A.C. 156*.
34 *Murphy v Zoological Society of London, Times, 14 Tachwedd 1962*.
35 Yn y gyfraith gyffredin, nid oedd cyfrifoldebau perchennog gwenyn mewn cychod gwenyn yn gwbl glir. Penderfynwyd achos yn Iwerddon, *O'Gorman v O'Gorman [1903] 2 I.R. 573*, lle cafodd dyn ei anafu oherwydd bod gwenyn wedi cael eu gwylltio wedi pigo ei geffyl, yn dilyn canfyddiad o esgeulustod, ac mae'n rhywfaint o awdurdod i'r cynnig nad yw gwenyn yn "anifeiliaid peryglus" fel y cyfryw, ond mewn achos diweddarach yng Nghanada, *Lucas v Pettitt (1906) 12 O.L.R. 448* lle'r oedd y gwenynwr hefyd yn atebol, penderfynwyd nad oedd athrawiaeth ymwybodol yn gymwys o gwbl. Gweler hefyd *Robins v Kennedy [1931] N.Z.L.R. 1134*. Nid yw gwenyn wedi eu
36 cynnwys yn y diffiniad statudol o dda byw yn adran 11 o'r Ddeddf.
37 *Chauhan v Paul [1998] C.L.Y. 3990, CA*.
Gweler, e.e. *Curtis v Betts [1990] 1 W.L.R. 459*; *Peachey, "Dogs—Civil Liability for Damage and Injuries", 133 S.J. 1614*. Gweler hefyd *Hunt v Wallis [1994] P.I.Q.R. P128* a *Gloster v Chief Constable of Greater Manchester Police [2000] P.I.Q.R. P114, CA*, yn P116.

© 2020 Thomson Reuters.

38 Nid yw'n glir eto, er gwaethaf y sancsiynau troseddol sydd yn y Ddeddf, a fydd rhwymedi sifil hefyd yn codi ar draul rhywun a anafwyd o ganlyniad i fethu ag ufuddhau i'r cyfyngiadau a osodwyd.

39 *Besozzi v Harris (1858) 1 F. & F. 92*.

40 *Behrens v Bertram Mills Circus Ltd [1957] 2 Q.B. 1* (roedd y diffynyddion yn atebol er bod eu eliffantod Byrmanaidd fel arfer yn ufudd ac yn ymddwyn yn dda pan oeddent ar y ffordd i'r cylch - o gael eu dychryn gan gi bach, fe wnaethant daro bwth lle'r oedd dau berfformiwr i'w gweld).

41 Diffinnir *rhywogaethau* fel rhai sy'n cynnwys "isrywogaethau ac amrywogaethau": adran 11 o Ddeddf 1971

42 *Turnbull v Warrener [2012] P.I.Q.R. P16, CA*, yn [4].

43 *Curtis v Betts [1990] 1 W.L.R. 459*, yn cymhwyso *Cummings v Grainger [1977] Q.B. 397*.

...

129 Gweler Bramwell B yn *Nichols v Marsland (1875) L.R. 10 Ex. 255* yn 260 (gweithred gan Dduw); gweler hefyd *Rands v McNeil [1955] 1 Q.B. 253* yn 257, yn ôl Arglwydd Ustud Denning (no escape from control); *Fleeming v Orr (1855) 2 Macq. 14*; Charlesworth on Negligence, 4th edn, (London: Sweet & Maxwell, 1962), p.744, *Baker v Snell [1908] 2 K.B. 825* a Devlin J yn *Behrens v Bertram Mills Circus Ltd [1957] 2 Q.B. 1*, (gweithred annibynnol gan drydydd parti).

130 *Murphy v Zoological Society of London, Times, 14 November 1962* (bachgen 10 oed a oedd yn aelod o grŵp sgowtiaid, a fu'n ymweld â chawell llew, a ddringodd rhwng dwy ffens, cyn cael ei larpio gan y llew, a bu farw'n ddiweddarach. Mynnwyd bod yr ymadawedig yn dresmaswr yn y man hwnnw, ac oherwydd nad oedd yr un anifail wedi "dianc" nid oedd y Gymdeithas Swolegol yn torri unrhyw ddyletswydd a oedd yn ddyledus iddo).

131 Yn *Behrens v Bertram Mills Circus Ltd [1957] 2 Q.B. 1* yn 19, dywedodd Devlin J am yr amddiffyniad (ar fai'r hawlydd ei hun):
"Dydw i ddim yn gweld unrhyw reswm pam na ddylai'r un math o amddiffyniad fodoli lle nad yw bai'r pleintydd yn gyfystyr â byrbwylltra ... ond mae'n fethiant diwydrwydd dyladwy i ofalu am ei ddiogelwch ei hun." Gweler hefyd *James v Wellington City [1972] N.Z.L.R. 70* a pharagraff15-52, fn.147.

132 *Marlor v Ball (1900) 16 T.L.R. 239*.

133 *Sylvester v Chapman Ltd (1935) 79 S.J. 777*.

134 *Lee v Walkers (1939) 162 L.T. 89*; gweler hefyd *Sycamore v Ley (1932) 147 L.T. 342*.

135 Sy'n darparu: "At ddibenion Deddfau Damweiniau Angheuol 1846 i 1959, [1976] Deddf Diwygio'r Gyfraith (Esgeulustod Cyfrannol) 1945 a'r Ddeddf/Deddfau Cyfyngu [1980] bydd unrhyw ddifrod y mae unigolyn yn atebol amdano dan adran 2 i 4 o'r Ddeddf hon yn cael ei drin fel pe bai'n fai arno ef."

136 *Jones v Baldwin LTL 16/11/2011*. Gweler hefyd *Bodey v Hall [2012] P.I.Q.R. P1*, paragraff 15-24, (a nodwyd na fyddai wedi bod yn esgeulustod cyfrannol peidio â gwisgo het farchogaeth wrth farchogaeth merlod a thrap fel teithiwr: roedd gwahanol farn ynghylch a oedd angen gwisgo hetiau marchogaeth wrth yrru cerbydau a doedd dim rheolau na chanllawiau wedi eu cynhyrchu i argymell bod angen gwisgo hetiau).

137 Yn *Cummings v Grainger [1977] Q.B. 397* yn 408, roedd Ormrod LJ yn annog y dylai geiriau adran 5(2) gael eu hystyr Saesneg arferol, heb eu cymhlethu â hen athrawiaeth volenti non fit injuria, ac na ddylai'r amddiffyniad gael ei lastwreiddio gan wahaniaethau rhy fân o'r hyn yr oeddent yn ei olygu.

138 gweler Etheron LJ yn *Freeman v Higher Park Farm [2009] P.I.Q.R. P6, CA*. at [48], dyfynnwyd yn *Turnbull v Warrener [2012] P.I.Q.R. P16* yn [30].

139 *Smith v Shields (1964) 108 S.J. 501*.

140 *Cummings v Grainger [1977] Q.B. 397*.

141 *Freeman v Higher Park Farm [2009] P.I.Q.R. P6, CA*, paragraffau 15-22. Gweler hefyd *Bodey v Hall [2012] P.I.Q.R. P1*, paragraff15-24 ac fn.136 (methodd yr honiad gan farchogwraig brofiadol, a gafodd ei thaflu oddi ar ferlen a thrap lle'r oedd hi'n cael ei chludo fel teithiwr, pan oedd yn gwybod am y risg y gallai trap wyro neu neidio drwy ymddygiad anrhagweladwy'r ceffyl wrth iddo gael ei yrru). Gweler hefyd yn gyffredinol *Goldsmith v Patchcott [2012] P.I.Q.R. P11, CA* (yr hawlydd, marchogwraig brofiadol, a oedd yn gwybod am duedd ceffylau i daflu a chodi eu carnau ar ôl cael eu dychryn, a dderbyniodd o'i gwirfodd y risg y byddai ceffyl yn gweithredu yn y modd hwnnw pan fyddai'n ei farchogaeth ar dreial gyda'r bwriad o'i brynu: gwrthodwyd y cynnig nad oedd wedi derbyn y risg y byddai'r ceffyl yn

© 2020 Thomson Reuters.

taflu a chodi ei garnau mor arw ag y gwnaeth, gan nad oedd taflu a chodi carnau yn waeth nag a ragwelwyd yn mynd y tu hwnt i adran 5(2) o'r Ddeddf. Gweler hefyd *Turnbull v Warrener [2012] P.I.Q.R. P16, CA* (cafodd yr amddiffyniad adran 5(2) ei wneud lle'r oedd yr hawlydd, unwaith eto'n dynes geffylau brofiadol, yn marchogaeth ceffyl gan ddefnyddio ffrwyn heb enfa, lle'r oedd yn gwybod nad oedd y ceffyl wedi cael y fath ffrwyn o'r blaen, ac felly nad oedd ei adwaith yn hysbys: fel y bu pethau, cafodd broblemau'n atal y ceffyl ac yn y pen draw disgynodd, gan anafu ei hun).

142 *Roberts v Chief Constable of Kent [2008] EWCA Civ 1588; [2009] Po. L.R. 8*.

143 *Preskey v Sutcliffe LTL 25/3/2013*.

144 *Smith v Harding LTL 10/12/2013*.

145 gweler Jackson LJ yn *Goldsmith v Patchcott [2012] P.I.Q.R. P11, CA* yn [50].

146 *Rands v McNeil [1955] 1 Q.B. 253*.

147 Gweler, e.e. yr amgylchiadau yn *James v Wellington City [1972] N.Z.L.R. 70* (ceidwad sw a frathwyd gan tsimpansî).

148 *Cummings v Grainger [1977] Q.B. 397*.

149 Gweler yn awr Ddeddf Cŵn Gwarchod 1975, lle mae unigolyn yn cyflawni trosedd drwy gadw ci gwarchod ar eiddo, oni bai fod rhywun yn gofalu amdano neu oni bai ei fod ynghlwm wrth gadwyn ddiogel. Nid yw'r darpariaethau hyn yn effeithio ar atebolrwydd sifil ac, o ran rhesymoldeb, nid yw'r Ddeddf yn gymwys. Gweler *Harper, "Guard Dogs to Legal Heel", 125 New L.J. 243*; Er nad yw'n dresmasu fel y cyfryw, gweler, e.e. *Lowery v Walker [1911] A.C. 10* (deiliad cae a oedd wedi rhoi caniatâd dealledig i'w ddefnyddio fel llwybr byr, yn cael ei gyfrif yn atebol o ran esgeulustod am anaf a achoswyd gan geffyl milain). *Roy, "Guard Dog Act 1975", 126 New L.J. 1001*; *Spencer, [1977] C.L.J. 39 yn 42–43*.

150 Gweler ymhellach bennod 9, yn gyffredinol.

151 *Clarke v Barber [2002] C.L.Y. 464* (cam gweithredu sy'n seiliedig ar anaf personol a achoswyd gan gi'r diffynnydd) gan gymhwyso'r rhesymeg yn *Stubbings v Webbs [1993] A.C. 498* nawr yn cael ei wrthod yn *A v Hoare [2008] 2 W.L.R. 311, HL*, Pennod 4, paragraffau 4-208.

**Diwedd y ddogfen**

**© 2020 Sweet & Maxwell**

© 2020 Thomson Reuters.

Wedi ei gyrchu o LexisLibrary.

Mae’n cynnwys gwybodaeth sector cyhoeddus sydd wedi ei thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored.

Mae’r wybodaeth a ddangosir fel y mae wedi ei chael ar y dyddiad chwilio, er dibenion enghreifftiol yn unig. Ni ddylid dibynnu ar wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yma y tu allan i ddibenion y cwestiwn enghreifftiol hwn.

Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig/D/AD-DG/Deddf Cŵn Peryglus 1991 (1991 c 65)/1 Cŵn wedi eu bridio ar gyfer ymladd

**1 Cŵn wedi eu bridio ar gyfer ymladd**

(1) Mae'r adran hon yn berthnasol i—

- (a) unrhyw gi o'r math a elwir y ddaeargi pydew;
- (b) unrhyw gi o'r math a elwir yn dosa Japan; ac
- (c) unrhyw gi o unrhyw fath a ddynodir at ddibenion yr adran hon drwy orchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan ei fod yn fath sy'n ymddangos iddo gael ei fridio at ddibenion ymladd neu fod ganddo nodweddion math o gi a fridiwyd at y diben hwnnw.

(2) Ni chaiff neb—

- (a) fridio, neu fridio gan ddefnyddio, ci mae’r adran hon yn gymwys iddo;
- (b) gwerthu neu gyfnewid ci o'r fath neu gynnig, hysbysebu neu ddangos ci o'r fath i'w werthu neu i'w
- (c) gyfnewid; rhoi neu gynnig rhoi ci o'r fath neu hysbysebu neu ddangos ci o'r fath fel rhodd;
- (d) caniatáu i gi o'r fath y mae'n berchennog arno neu mae'n gyfrifol am y tro amdano fod mewn man cyhoeddus heb ffrwyn na'i gadw ar dennyn; neu
- (e) rhoi’r gorau i gi o'r fath y mae'n berchennog arno neu, gan mai ef yw'r perchennog (neu, am y tro, yn gyfrifol am gi o’r fath), gadael iddo grwydro.

(3) Ar ôl y cyfryw ddiwrnod ag y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy orchymyn, ei benodi at ddibenion yr is-adran hon, ni fydd gan unrhyw unigolyn gi y mae'r adran hon yn gymwys iddo yn ei feddiant neu dan ei gystodaeth ac eithrio—

- (a) yn unol â’r pŵer ymafael a roddir gan ddarpariaethau dilynol y Ddeddf hon; neu
- (b) yn unol â gorchymyn am ei ddistrywio a wnaed o dan y darpariaethau hynny;

ond bydd yr Ysgrifennydd Gwladol drwy orchymyn yn gwneud cynllun ar gyfer talu i berchnogion cŵn o'r fath sy'n trefnu eu bod yn cael eu distrywio cyn y diwrnod hwnnw, symiau a bennir yn y cynllun neu a benderfynir o dan y cynllun mewn perthynas â'r cŵn hynny a chost eu distrywio.

(4) Ni fydd is-adran (2)(b) ac (c) uchod yn gwneud unrhyw beth yn anghyfreithlon a wneir gyda’r pwrpas o symud y ci dan sylw o’r Deyrnas Unedig cyn y diwrnod a benni o dan is-adran (3) uchod

(5) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol drwy orchymyn ddarparu na fydd y gwaharddiad yn is-adran (3) uchod yn gymwys mewn achosion o’r fath ac yn ddarostyngedig i gydymffurfio ac unrhyw amodau a bennir

yn y gorchymyn, a gall unrhyw ddarpariaeth o'r fath fod ar ffurf cynllun eithrio sy'n cynnwys trefniadau o'r fath (gan gynnwys darpariaeth ar gyfer talu costau neu ffioedd) fel y gwêl yn briodol.

(6) Caiff cynllun o dan is-adran (3) neu (5) uchod ddarparu ar gyfer swyddogaethau penodedig o dan y cynllun y cynllun gael ei cyflawni gan y personau neu'r cyrff hynny sy'n briodol ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol.

[(6A) Caiff cynllun o dan is-adran (3) neu (5) yn benodol gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i lys ystyried a yw person yn addas a phriodol i fod yn gyfrifol am gi.]

(7) Mae unrhyw un sy'n mynd yn groes i'r adran hon yn euog o drosedd ac yn agored, ar gollfarn ddiannod, i garchar am gyfnod nad yw'nfwy na chwe mis neu ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol neu'r ddau ac eithrio bod person sy'n cyhoeddi hysbyseb yn groes i is-adran (2)(b) neu (c)—

(a) yn agored i gael ei ddyfarnu'n euog ac i gael ei garcharu os yw'n dangos iddo gyhoeddi'r hysbyseb ar orchymyn rhywun arall, ac nad ef ei hun a'i lluniodd; a

(b) ni chaiff ei ganfod yn euog os yw, yn ogystal, yn dangos nad oedd yn gwybod ac nad oedd ganddo unrhyw achos rhesymol i amau ei fod yn ymwneud â chi y mae'r adran hon yn gymwys iddo

(8) Mae gorchymyn o dan is-adran (1)(c) uchod yn ychwanegu cŵn o unrhyw fath at y rhai y mae'r adran hon yn gymwys iddynt ac yn golygu y gall is-adrannau (3) a (4) uchod fod yn gymwys mewn perthynas â'r cŵn hynny gyda'r newid ymostyngiad ar gyfer y diwrnod a benodir o dan is-adran (3) o ddiwrnod diweddarach a bennir yn y gorchymyn.

(9) Bydd y pŵer i wneud gorchmynion o dan yr adran hon yn arferadwy drwy offeryn statudol sydd, yn achos gorchymyn o dan is-adran (1) neu (5) neu orchymyn sy'n cynnwys cynllun o dan is-adran (3), yn ddarostyngedig i'w ddirymu yn unol â phenderfyniad gan y naill Dŷ Seneddol neu'r llall.

**NODIADAU**

**Cychwyn Cyntaf**

***I'w benodi***

I'w benodi: gweler adran 10(4).

**Penodi**

Is-adrannau (1), (2), (4)–(9): Penodi: 12 Awst 1991: gweler OS 1991/1742, erthygl 3.
Is-adran (3): Penodi: 30 Tachwedd 1991: gweler OS 1991/1742, erthygl 2.

**Diwygio**

Is-adrannau (6A): a fewnosodwyd gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, adrannau 107(1), (2).

Dyddiad y daeth i rym: 13 Mai 2014: gweler OS 2014/949, erthygl 3, Atodlen, paragraff 7.

**Is-ddeddfwriaeth**

Gorchymyn Cŵn Peryglus (Mathau Dynodedig) 1991, OS 1991/1743 (a wnaed o dan is-adran (1)(c)).

Gorchymyn Cynlluniau Eithrio Cŵn Peryglus (Cymru a Lloegr) 2015, OS 2015/138 (a wnaed o dan is-adrannau (5), (6), (6A)).

**Gwybodaeth ddogfennol**

Deddf Cŵn Peryglus 1991

**Dyddiad gwneud**
25/07/1991

Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig/D/AD-DG/Deddf Cŵn Peryglus 1991 (1991 c 65)/2 Cŵn eraill sy'n arbennig o beryglus

**2 Cŵn eraill sy'n arbennig o beryglus**

(1) Os yw’n ymddangos i’r Ysgrifennydd Gwladol nad yw cŵn o unrhyw fath nad yw adran 1 uchod yn gymwys iddynt yn peri perygl difrifol i’r cyhoedd, gall bennu drwy orchymyn mewn perthynas â chŵn o’r math hwnnw gyfyngiadau cyfatebol, gydag unrhyw addasiad, os yw'n berthnasol, sy’n briodol yn ei farn ef, i bob neu unrhyw un o’r rhai yn is-adran (2)(d) ac (e) o’r adran honno.

(2) Gall gorchymyn o dan yr adran hon ddarparu ar gyfer eithriadau o unrhyw gyfyngiad a osodir gan y gorchymyn yn y mewn unrhyw achosion o’r fath ac yn ddarostyngedig i gydymffurfio ag unrhyw amodau a bennir yn y gorchymyn.

(3) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon gynnwys darpariaethau atodol neu dros dro fel mae’r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn ei fod yn angenrheidiol neu'n hwylus a gall greu troseddau y gellir eu cosbi ar gollfarn ddiannod gyda charchar am gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis neu ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol neu'r ddau.

(4) Wrth benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn o dan yr adran hon mewn perthynas â chŵn o unrhyw fath ac, os felly, beth ddylai darpariaethau'r gorchymyn fod, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r unigolion neu'r cyrff hynny y mae'n ymddangos iddo ef fod ganddynt wybodaeth neu brofiad perthnasol, gan gynnwys corff sy'n ymwneud â lles anifeiliaid, corff sy'n ymwneud â gwyddoniaeth ac ymarfer milfeddygol a chorff sy'n ymwneud â bridiau cŵn.

(5) Bydd y pŵer i wneud gorchymyn o dan yr adran hon yn arferadwy drwy offeryn statudol, ac ni fydd gorchymyn o'r fath yn cael ei wneud oni bai bod drafft ohono wedi ei osod gerbron dau Dŷ'r Senedd a'i gymeradwyo drwy benderfyniad.

**NODIADAU**

**Cychwyn Cyntaf**

***I’w benodi***

I’w benodi: gweler adran 10(4).

**Penodi**

Penodi: 12 Awst 1991: gweler OS 1991/1742, erthygl 3.

**Trosglwyddo Swyddogaethau**

Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672, erthygl 2, Atodlen 1.

**Gwybodaeth ddogfennol**

Deddf Cŵn Peryglus 1991

**Dyddiad gwneud**
25/07/1991

Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig/D/AD-DG/Deddf Cŵn Peryglus 1991 (1991 c 65)/3 Cadw cŵn dan reolaeth briodol

**3 Cadw cŵn dan reolaeth briodol**

(1) Os yw ci allan o reolaeth ac yn beryglus mewn unrhyw fan yng Nghymru neu Loegr (p’ un ai yw'n fan cyhoeddus ai peidio)

(a)mae’r perchennog; ac

(b)os yw'n wahanol, y sawl sy'n gyfrifol am y ci ar y pryd,

yn euog o dramgwydd, neu, os yw'r ci, tra ei fod allan o reolaeth, yn anafu unrhyw unigolyn [neu gi cymorth], trosedd waethygiedig, o dan yr is-adran hon.

[(1A) Nid yw unigolyn (“D”) yn euog o drosedd o dan is-adran (1) mewn achos sy'n achos deiliad tŷ.

(1B) At ddibenion is-adran (1A) mae “achos deiliad tŷ” yn achos—

(a) lle mae'r ci yn beryglus o ddi-reolaeth tra'i fod mewn adeilad neu'n rhannol mewn adeilad, neu annedd neu'n llety lluoedd arfog (neu'r ddau beth hyn), ac

(b)ar yr adeg honno—
(i) os yw'r sawl y mae'r ci allan o reolaeth ac yn beryglus ('V') mewn perthynas ag ef yn yr adeilad, neu rhan o'r adeilad fel tresmaswr, neu neu os yw'n mynd i mewn
(ii) os oedd D (os oedd yn bresennol bryd hynny) yn credu bod V yn yr adeilad, neu'n mynd i'r adeilad neu ran ohono, fel tresmaswr.

Mae adran 76(8B) i (8F) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (defnyddio grym mewn man preswylio) yn gymwys at ddibenion yr is-adran hon fel y maent yn gymwys at ddibenion is-adran (8A) o'r adran honno (ac at y dibenion hynny mae'r cyfeiriad yn adran 76(8D) at is-adran (8A)(d) i'w ddarllen fel pe bai'n gyfeiriad at baragraff (b)(ii) o'r is-adran hon).

(2) Mewn achos cyfreithiol am drosedd o dan is-adran (1) uchod yn erbyn unigolyn sy'n berchennog ci ond nad oedd ar yr adeg berthnasol o dan ei ofal, bydd yn amddiffyniad i'r cyhuddedig brofi bod y ci ar yr adeg berthnasol yng ngofal person yr oedd yn rhesymol gredu ei fod yn berson addas a phriodol i fod yn gyfrifol amdano.

(3) . . .
(4) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1). . . uchod ac eithrio trosedd waethygedig yn agored ar gollfarn ddiannod i garchar am gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis neu ddirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol neu'r ddau; ac mae person sy'n euog o drosedd waethygedig o dan yr is-adran honno yn agored—
 (a) ar gollfarn ddiannod, i garchar am gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis neu ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol neu'r ddau;
 (b) ar gollfarn ar dditiad, i garchar am dymor nad yw'n hwy na *dwy flynedd* [yr uchafswm perthnasol a bennir yn is-adran (4A)] neu ddirwy neu'r ddau.

[(4A) At ddibenion is-adran (4)(b), yr uchafswm perthnasol yw— 14 mlynedd os bydd

(a)unigolyn yn marw o ganlyniad i gael ei anafu;

(b)5 mlynedd mewn unrhyw achos arall pan gaiff unigolyn ei anafu;

(c) 3 blynedd mewn unrhyw achos lle mae ci cymorth wedi ei anafu (p'un a yw'n marw ai peidio).

*(5) Datganir drwy hyn er mwyn osgoi amheuaeth bod modd gwneud gorchymyn o dan adran 2 o Ddeddf Cŵn 1871 (gorchymyn yn dilyn cwyn bod ci yn beryglus ac nad yw'n cael ei gadw dan reolaeth briodol)—*
 *(a) p'un a ddangosir bod y ci wedi anafu unrhyw un ai peidio; a*
 *(b) gellir pennu'r mesurau sydd i'w cymryd i gadw'r ci o dan reolaeth briodol, p'un ai drwy ffrwyno, cadw ar dennyn, ei wahardd o fannau penodedig neu fel arall.*

*(6) Os yw'n ymddangos i lys ar gŵyn o dan adran 2 o Ddeddf 1871 fod y ci y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef yn gi gwryw ac y byddai'n llai peryglus petai'n cael ei ysbaddu, caiff y llys o dan yr adran honno wneud gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei ysbaddu.*

*(7) Mae'r cyfeiriad yn adran 1(3) o Ddeddf Cŵn Peryglus 1989 (cosbau) at fethu â chydymffurfio â gorchymyn o dan adran 2 o Ddeddf 1871 i gadw ci dan reolaeth briodol yn cynnwys cyfeiriad at fethu â chydymffurfio ag unrhyw orchymyn arall a wneir o dan yr adran honno; ond ni wneir gorchymyn o dan yr adran honno yn rhinwedd is-adran (6) uchod pan gododd y materion y cwynir amdanynt cyn i'r is-adran honno ddod i rym.*

**NODIADAU**

**Cychwyn Cyntaf**

***I'w benodi***

I'w benodi: gweler adran 10(4).

**Penodi**

Penodi: 12 Awst 1991: gweler OS 1991/1742, erthygl 3.

**Diwygio**

Is-adrannau (1): y geiriau "unrhyw fan (p'un a yw'n fan cyhoeddus)" mewn cromfachau sgwâr yn cael eu hamnewid mewn perthynas â Chymru a Lloegr gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, a 106(1), (2)(a)(i); gwnaed diwygiad cyfatebol mewn perthynas â'r Alban gan Ddeddf Rheoli Cŵn (Yr Alban) 2010, adran 10.

> Dyddiad y daeth i rym (o ran yr Alban): 26 Chwefror 2011: gweler Deddf Rheoli Cŵn (Yr Alban) 2010, adran 18(2); am arbedion gweler adran 16 y Ddeddf.
> Dyddiad y daeth i rym (o ran Cymru a Lloegr): 13 Mai 2014: gweler OS 2014/949, erthygl 3, Atodlen, paragraff 6; am ddarpariaeth drosiannol gweler erthygl 9.

Is-adrannau (1): geiriau "neu gi cymorth" mewn cromfachau sgwâr wedi eu mewnosod gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, adran 106(1), (2)(a)(ii).

> Dyddiad y daeth i rym: 13 Mai 2014: gweler OS 2014/949, erthygl 3, Atodlen, paragraff 6; ar gyfer darpariaethau trosiannol gweler erthygl 9.

Is-adrannau (1A), (1B): mewnosod, mewn perthynas â Chymru a Lloegr, gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, adran 106(1), (2)(b).

> Dyddiad y daeth i rym: 13 Mai 2014: gweler OS 2014/949, erthygl 3, Atodlen, paragraff 6; am ddarpariaeth drosiannol gweler erthygl 9.

Is-adrannau (3): a ddiddymwyd mewn perthynas â Chymru a Lloegr gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, adran 106(1), (2)(c) ac mewn perthynas â'r Alban gan Ddeddf Rheoli Cŵn (Yr Alban) 2010, adran 14, Atodlen 1, paragraff 2(1)(a).

> Dyddiad y daeth i rym (o ran yr Alban): 26 Chwefror 2011: gweler Deddf Rheoli Cŵn (Yr Alban) 2010, adran 18(2); am arbedion gweler adran 16 y Ddeddf.
> Dyddiad y daeth i rym (o ran Cymru a Lloegr): 13 Mai 2014: gweler OS 2014/949, erthygl 3, Atodlen, paragraff 6; am ddarpariaeth drosiannol gweler erthygl 9.

Is-adrannau (4): y geiriau “yr is-adran honno” yn y cromfachau sgwâr yn cael eu hamnewid mewn perthynas â Chymru a Lloegr gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, adran 106(1), (2)(d)(ii) ac mewn perthynas â'r Alban gan Ddeddf Rheoli Cŵn (Yr Alban) 2010, adran 14, Atodlen 1, paragraff 2(1), (2)(b)(ii).

> Dyddiad y daeth i rym (o ran yr Alban): 26 Chwefror 2011: gweler Deddf Rheoli Cŵn (Yr Alban) 2010, adran 18(2); am arbedion gweler adran 16 y Ddeddf.
> Dyddiad y daeth i rym (o ran Cymru a Lloegr): 13 Mai 2014: gweler OS 2014/949, erthygl 3, Atodlen, paragraff 6; am ddarpariaethau trosiannol gweler erthygl 9.

Is-adran (4): ym mharagraff (b) y geiriau “dwy flynedd” mewn llythrennau italig wedi eu diddymu a’r geiriau dilynol mewn cromfachau sgwâr wedi eu hamnewid, mewn perthynas â Chymru a Lloegr, gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, adran 106(1), (2)(d)(iii).

> Dyddiad y daeth i rym: 13 Mai 2014: gweler OS 2014/949, Atodlen, paragraff 6; am ddarpariaethau trosiannol gweler erthygl 9.

Is-adrannau (4A): mewnosod mewn perthynas â Chymru a Lloegr, gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, adrannau 106(1), (2)(e).

> Dyddiad y daeth i rym: 13 Mai 2014: gweler OS 2014/949, erthygl 3, Atodlen, paragraff 6; am ddarpariaeth drosiannol gweler erthygl 9.

Is-adrannau (5)–(7): diddymwyd, mewn perthynas â'r Alban, gan Ddeddf Rheoli Cŵn (Yr Alban) 2010, adran 14, Atodlen 1, paragraffau 2(1), (2)(c).

> Dyddiad y daeth i rym: 26 Chwefror 2011: gweler Deddf Rheoli Cŵn (Yr Alban) 2010, adran 18(2); gweler adran 16 y Ddeddf ar gyfer arbedion.

| **Gwybodaeth ddogfennol** |
|---|

Deddf Cŵn Peryglus 1991

**Dyddiad gwneud**
25/07/1991

Wedi ei gyrchu o LexisLibrary.

Mae'n cynnwys gwybodaeth sector cyhoeddus sydd wedi ei thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored.

Mae'r wybodaeth a ddangosir fel y mae wedi ei chael ar y dyddiad chwilio, er dibenion enghreifftiol yn unig. Ni ddylid dibynnu ar wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yma y tu allan i ddibenion y cwestiwn enghreifftiol hwn.

Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig/D/AD-DG/Deddf Cŵn Peryglus 1991 (1991 c 65)/10 Enw byr, dehongliad, cychwyn a rhychwant

**10 Enw byr, dehongliad, cychwyn a chwmpas**

(1) Enw'r Ddeddf hon yw Deddf Cŵn Peryglus 1991.

(2) Yn y Ddeddf hon—

mae "hysbyseb" yn cynnwys unrhyw ddull o ddwyn mater i sylw'r cyhoedd a dehonglir "hysbysebu" yn unol â hynny;

[Mae "ci cymorth" yn golygu'r ystyr a roddir yn adran 173(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010;]

ystyr "lle cyhoeddus" yw unrhyw stryd, ffordd neu fan arall (p'un a yw'n gaeedig ai peidio) y mae gan y cyhoedd neu y caniateir i'r cyhoedd gael mynediad iddi naill ai am dâl neu fel arall, ac mae'n cynnwys rhannau cyffredin adeilad sy'n cynnwys dau neu fwy o anheddau ar wahân.

(3) At ddibenion y Ddeddf hon, ystyrir bod ci sydd allan o reolaeth ac yn beryglus ar unrhyw achlysur lle mae sail resymol dros gredu y bydd yn anafu unrhyw berson neu gi cymorth, p'un a yw'n gwneud hynny ai peidio, ond nid yw cyfeiriadau at gi sy'n anafu person [neu gi cymorth] neu sy'n sail dros bryder rhesymol y bydd yn gwneud hynny yn cynnwys cyfeiriadau at unrhyw achos lle bod y ci yn cael ei ddefnyddio at ddiben cyfreithlon gan gwnstabl neu unigolyn yng ngwasanaeth y Goron.

(4) Ac eithrio adran 8, ni fydd y Ddeddf hon yn dod i rym tan y cyfryw ddiwrnod ag y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei benodi drwy orchymyn a wneir drwy offeryn statudol, a gellir penodi diwrnodau gwahanol ar gyfer darpariaethau gwahanol neu ddibenion gwahanol.

(5) Ac eithrio adran 8, nid yw'r Ddeddf hon yn gymwys i Ogledd Iwerddon.

**NODIADAU**

**Cychwyn Cyntaf**

***I'w benodi***

I'w benodi: gweler is-adran (4) uchod.

**Penodi**

Penodi: 12 Awst 1991: gweler OS 1991/1742, erthygl 3.

**Diwygio**

Is-adran (2): diffiniad o “gi cymorth” a fewnosodwyd gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, adrannau 106(1), (6)(a).

Dyddiad y daeth i rym: 13 Mai 2014: gweler OS 2014/949, erthygl 3, Atodlen, paragraff 6.

Is-adran (3): geiriau “neu gi cymorth” mewn cromfachau sgwâr ym mhob man maent yn digwydd wedi eu mewnosod gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, adran 106(1), (6)(b).

Dyddiad y daeth i rym: 13 Mai 2014: gweler OS 2014/949, erthygl 3, Atodlen, paragraff 6.

**Gwybodaeth ddogfennol**

Deddf Cŵn Peryglus 1991

**Dyddiad gwneud**
25/07/1991

Atgynhyrchwyd o LexisLibrary gyda chaniatâd caredig LexisNexis.

Mae’r wybodaeth a ddangosir fel y mae wedi ei chael ar y dyddiad chwilio, er dibenion enghreifftiol yn unig. Ni ddylid dibynnu ar wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yma y tu allan i ddibenion y cwestiwn enghreifftiol hwn.

Halsbury’s Laws of England/Animals (Cyfrol 2 (2017))/3. Atebolrwydd Perchnogion a Cheidwaid Anifeiliaid/(1) Anafiadau a Achosir gan Anifeiliaid/46. Atebolrwydd caeth am ddifrod.

## 3.ATEBOLRWYDD PERCHNOGION A CHEIDWAID ANIFEILIAID

### (1) ANAFIADAU A ACHOSIR GAN ANIFEILIAID

#### 46. Atebolrwydd caeth am ddifrod.

Pan fo unrhyw ddifrod[1] yn cael ei achosi gan anifail sy’n perthyn i rywogaeth beryglus,[2] mae unrhyw un sy’n geidwad iddo[3] yn gwbl atebol am y difrod, yn amodol ar eithriadau penodol.[4]

Mae rhywogaeth beryglus yn un nad yw’n cael ei dofi’n gyffredin yn Ynysoedd Prydain, ac y mae gan anifeliaid sydd wedi tyfu’n llawn nodweddion o’r fath fel arfer y maent yn debygol, oni chânt eu hatal, o achosi difrod difrifol, neu bod unrhyw niwed y gallant ei achosi yn debygol o fod yn ddifrifol.[5]

Mae person yn geidwad anifail os yw naill ai'n berchen arno neu os yw yn ei feddiant, neu os yw'n bennaeth aelwyd y mae aelod o dan 16 oed yn berchen ar yr anifail neu os yw yn ei feddiant, ac os yw'r berchnogaeth neu'r meddiant hwnnw yn dod i ben ar unrhyw adeg, yna bydd y sawl a oedd, cyn y dyddiad hwnnw, yn gymwys fel ceidwad yr anifail yn parhau felly nes y bydd person arall[6] yn cymryd ei le. Nid yw person, fodd bynnag, yn dod yn geidwad anifail at y diben hwn dim ond oherwydd ei fod yn ei gymryd a’i gadw yn ei feddiant i’w atal rhag achosi difrod neu i’w adfer i’w berchennog.[7]

1. Mae ‘difrod’ yn cynnwys marwolaeth, neu anaf i, unrhyw un, gan gynnwys unrhyw glefyd ac unrhyw nam corfforol neu gyflwr meddyliol: Deddf Anifeiliaid 1971, adran 11.

2. Mae ‘rhywogaethau’ yn cynnwys is-rywogaethau ac amrywogaethau: Deddf Anifeiliaid 1971, adran 11.

3. Gall Gall mwy nag un fod yn geidwad anifail; felly gall y sawl sy’n gyrru a pherchennog ceffyl fod yn geidwaid y ceffyl, ac mae un ceidwad anifail, yn ôl y gyfraith, yn gallu erlyn un arall: *Flack v Hudson* [2001] QB 698, [2001] 2 WLR 982, [2000] All ER (D) 1701, CA. Gweler hefyd destun a nodiadau 5–7. Gallai plentyn gael ei erlyn am ddifrod a wnaed gan anifail peryglus a oedd yn cael ei gadw ganddo (gweler *North v Wood* [1914] 1 KB 629), ond mae’n amheus a yw hyn yn dal yn wir yng ngoleuni Deddf Anifeiliaid 1971 adrannau 1(1)(a), 6(3) (gweler testun a nodiadau 4–5). O ran capasiti plant yn gyffredinol, gweler **PLANT A PHOBL IFANC**.

4. Deddf Anifeiliaid 1971, adran 2(1). Mae'r ddarpariaeth hon yn disodli'r rheolau cyfraith gwlad blaenorol sy'n seiliedig ar egwyddor *ferae naturae*: adran 1(1)(a). Ar gyfer eithriadau rhag atebolrwydd, gweler paragraff 48.

5. Deddf Anifeiliaid 1971, adran 6(1), (2). Mater cyfreithiol yw p’un a yw’n ymddangos bod anifail wedi cael ei ddofi ai peidio (*McQuaker v* Goddard [1940] 1 KB 687, [1940] 1 All ER 471, CA), ond cyflwynir bod y Ddeddf yn awr yn gwahaniaethu rhwng ‘ dofi’ (gweler *McQuaker v Goddard* [1940] 1 KB 687, [1940] 1 All ER 471, CA) a 'dofi yn yr ynysoedd hyn'. Yn amlwg, gall anifail fod yn beryglus dan y Ddeddf oherwydd ei faint neu ei natur anrhagweladwy (fel drwy fod yn ofnus a rhuthro), heb ystyried unrhyw fath o ffyrnigrwydd ynddo: cf *Behrens v Bertram Mills Circus Ltd [1957] 2 QB 1, [1957] 1 All ER 583.* Mae modd ystyried gwenyn fel anifeiliaid wedi eu dofi: gweler *O'Gorman v O'Gorman* [1903] 2 IR 573 (canfuwyd esgeulustod yn benodol). Mae 'Ynysoedd Prydain' yn golygu'r Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon; mae'r Deyrnas Unedig yn golygu Prydain Fawr (h.y. Cymru, Lloegr a'r Alban) a Gogledd Iwerddon: gweler Deddf Dehongli 1978 adrannau 5, 22, Atodlen 1.

6. Deddf Anifeiliaid 1971, adran 6(3). Mae hyn yn dilyn y rheol cyfraith gyffredin bod y cyfrifoldeb dros weithredoedd anifail yn dibynnu ar berchnogaeth berchnogaeth neu feddiant a rheolaeth: gweler *M'Kone v Wood* (1831) 5 C & P 1; *Knott v LCC* [1934] 1 KB 126, CA. Fodd bynnag, awgrymir y byddai *Smith v Great Eastern Rly Co* (1866) LR 2 CP 4 (ci crwydr mewn adeilad ond dim byd wedi ei wneud i’w annog na’i reoli: dim

atebolrwydd) yn dal i fod yn gyfraith ddilys. Gweler hefyd *Flack v Hudson* [2001] QB 698, [2001] 2 WLR 982, [2000] All ER (D) 1701, CA; a nodyn 3.

7. Deddf Anifeiliaid 1971, adran 6(4).

Wedi ei gyrchu o LexisLibrary.

Mae’n cynnwys gwybodaeth sector cyhoeddus sydd wedi ei thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored.

Mae’r wybodaeth a ddangosir fel y mae wedi ei chael ar y dyddiad chwilio, er dibenion enghreifftiol yn unig. Ni ddylid dibynnu ar wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yma y tu allan i ddibenion y cwestiwn enghreifftiol hwn.

Deddfau Seneddol y Deyrnas Unedig/O/OA-OG/Deddf Atebolrwydd Deiliaid 1957 (1957 c 31)/1 Rhagarweiniol

***Atebolrwydd mewn camwedd***

**1 Cychwynnol**

(1) Bydd y rheolau a ddeddfir gan y ddwy adran ganlynol yn dod i rym, yn lle rheolau’r gyfraith gyffredin, i reoleiddio'r ddyletswydd sydd gan ddeiliad eiddo i'w ymwelwyr mewn perthynas â pheryglon oherwydd cyflwr yr eiddo neu I bethau a wneir neu a hepgorwyd i’w gwneud arnynt.

(2) Bydd y rheolau a ddeddfir felly yn rheoleiddio natur y ddyletswydd a osodir gan y gyfraith o ganlyniad i ganlyniad i feddiannu neu reoli eiddo ac o unrhyw wahoddiad neu ganiatâd y mae’n ei roi (neu sydd i’w drin fel pe bai’n cael ei roi) i rywun arall fynd i mewn i’r eiddo neu ei ddefnyddio, ond ni fyddant yn newid rheolau’r gyfraith gyffredin o ran y sawl y gosodir dyletswydd arnynt felly neu y mae’n ddyletswydd arnynt; ac yn unol â hynny at ddibenion y rheolau a ddeddfir felly, mae’r person sydd i’w trin fel deiliad ac fel ei ymwelwyr yr un fath (yn ddarostyngedig i is-adran (4) o’r adran hon) â’r personau a fyddai yn y gyfraith gyffredin yn cael eu trîn fel deiliad ac fel ei wahoddedigion neu drwyddedigion.

(3) Bydd y rheolau a ddeddfir mewn perthynas a deiliaid eiddo a’i ymwelwyr hefyd ac i’r un graddau ag y byddai’r egwyddorion sy’n gymwys yn y gyfraith gyffredin i ddeiliad eiddo a’i wahoddedigion neu drwyddedigion yn gymwys, i reoleiddio—

(a) rhwymedigaethau person sy’n ddeiliad neu sydd â rheolaeth dros unrhyw strwythur sefydlog neu symudol, gan gan gynnwys unrhyw long, cerbyd neu awyren; a

(b) rhwymedigaethau person sy’n ddeiliad neu sydd â rheolaeth dros unrhyw eiddo neu strwythur mewn perthynas â perthynas â difrod i eiddo, gan gynnwys eiddo pobl nad ydynt hwy eu hunain yn ymwelwyr a wahoddwyd ganddo.

[(4) Nid yw person sy'n mynd i mewn i unrhyw eiddo drwy arfer hawliau a roddwyd yn rhinwedd—

(a) adran 2(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, neu

(b) gytundeb neu orchymyn mynediad o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, at ddibenion y Ddeddf hon, yn ymwelydd â deiliad yr eiddo.]

**NODIADAU**

**Cychwyn Cyntaf**

***Dyddiad penodedig***

Dyddiad penodedig: 1 Ionawr 1958: gweler adran 8(3).

**Cwmpas**

Nid yw'r Ddeddf hon yn gymwys i'r Alban: gweler adran 8(2).

**Diwygio**

Is-adran (4): amnewidiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, adran 13(1).

> Dyddiad y daeth i rym (mewn perthynas â Lloegr): 19 Medi 2004: gweler OS 2004/2173, erthygl 2(1)(c). Dyddiad y daeth i rym (mewn perthynas â Chymru): 28 Mai 2005: gweler OS 2005/423, erthygl 2(c).

| **Gwybodaeth ddogfennol** |
|---|

Deddf Atebolrwydd Deiliaid 1957

**Dyddiad gwneud**
06/06/1957

Deddfau Seneddol y Deyrnas Unedig/O/OA-OG/Deddf Atebolrwydd Deiliaid 1957 (1957 c 31)/2 Cwmpas dyletswydd gyffredin y deiliad

**2 Cwmpas dyletswydd arferol deiliad**

(1) Mae gan ddeiliad eiddo'r un ddyletswydd, "dyletswydd gofal cyffredin", i'w holl ymwelwyr, ac eithrio i'r graddau y mae'n rhydd i, ac yn ymestyn, yn cyfyngu, yn addasu neu'n eithrio ei ddyletswydd i unrhyw ymwelydd neu ymwelwyr drwy gytundeb neu fel arall.

(2) Mae'r ddyletswydd gofal cyffredin yn ddyletswydd i gymryd unrhyw ofal ag o dan holl amgylchiadau'r achos, s'yn rhesymol i sicrhau y bydd yr ymwelydd yn weddol ddiogel wrth ddefnyddio'r safle at y dibenion y mae'r deiliad wedi'i gwahodd neu ei chaniatáu i fod yno.

(3) Mae'r amgylchiadau sy'n berthnasol at y diben presennol yn cynnwys graddfa'r gofal, a'r angen am ofal, y byddid fel arfer yn chwilio amdanynt mewn ymwelydd o'r fath, fel bod, mewn achosion priodol (er enghraifft)—

   (a) yn rhaid i ddeiliad fod yn barod i blant fod yn llai gofalus nag oedolion; a

   (b) gall deiliad ddisgwyl y bydd person, wrth iddo alw, yn gwerthfawrogi ac yn gofalu rhag unrhyw risg arbennig sydd fel arfer yn digwydd, i'r graddau mae'r deiliad yn ei adael yn rhydd i wneud hynny.

(4) Wrth benderfynu a yw deiliad eiddo wedi cyflawni’r ddyletswydd gofal cyffredinol i ymwelydd, rhaid rhoi sylw i'r holl amgylchiadau, fel (er enghraifft)—

(a) pan achosir niwed i ymwelydd gan berygl y cafodd ei rybuddio amdano gan y deiliad, nid yw'r rhybudd i'w drin heb fod yn fwy fel un sy’n atal y deiliad rhag atebolrwydd, oni bai ei fod yn ddigon o dan yr holl amgylchiadau i alluogi'r ymwelydd i fod yn weddol ddiogel; a

(b) pan achosir niwed i ymwelydd oherwydd bod unrhyw waith adeiladu, cynnal a chadw neu drwsio gan gontractwr annibynnol a gyflogir gan y deiliad yn ddiffygiol, ni ddylid trin y deiliad heb fod yn fwy atebol am y perygl pe bai wedi gweithredu’n rhesymol o dan yr holl amgylchiadau wrth roi’r gwaith i gontractwr annibynnol ac wedi cymryd camau o’r fath (os o gwbl) fel y dylai’n rhesymol er mwyn bodloni ei hun bod y contractwr yn gymwys a bod y gwaith wedi’i wneud yn iawn.

(5) Nid yw’r ddyletswydd gofal cyffredin yn gosod ar y deiliad unrhyw rwymedigaeth i ymwelydd mewn perthynas â risgiau sy’n cael eu derbyn yn barod gan yr ymwelydd (penderfynir ar y cwestiwn a oedd risg yn cael ei dderbyn yn unol â’r un egwyddorion ac mewn achosion eraill lle mae gan berson ddyletswydd gofal tuag at berson arall).

(6) At ddibenion yr adran hon, mae personau sy’n mynd i mewn i eiddo at unrhyw ddiben wrth arfer hawl a roddir gan y gyfraith i’w trin fel pe baent wedi cael caniatâd y deiliad i fod yno at y diben hwnnw, p’un a oes ganddynt ei ganiatâd ai peidio.

**NODIADAU**

**Cychwyn Cyntaf**

***Dyddiad penodedig***

Dyddiad penodedig: 1 Ionawr 1958: gweler adran 8(3).

**Maint Cwmpas**

Nid yw’r Ddeddf hon yn gymwys i’r Alban: gweler adran 8(2).

**Gwybodaeth ddogfennol**

Deddf Atebolrwydd Deiliaid 1957

**Dyddiad gwneud**
06/06/1957

Deddfau Seneddol y Deyrnas Unedig/O/OA-OG/Deddf Atebolrwydd Deiliaid 1957 (1957 c 31)/3 Effaith y contract ar atebolrwydd y deiliad i drydydd parti

**3 Effaith contract ar atebolrwydd deiliad i drydydd parti**

(1) Pan fydd deiliad safle wedi'i rwymo drwy gontract i ganiatáu i bobl sy'n ddieithr i'r contract ddod i mewn i'r eiddo neu i'w ddefnyddio, ni all y ddyletswydd gofal sydd arno iddynt fel ei ymwelwyr gael ei chyfyngu na'i heithrio gan y contract hwnnw, ond (yn amodol i unrhyw ddarpariaeth yn y contract i'r gwrthwyneb) rhaid iddo gynnwys y ddyletswydd i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y contract, p'un ai ydynt yn cael eu cyflawni i'w diogelu ai peidio, i'r graddau mae'r rhwymedigaethau hynny'n mynd y tu hwnt i'r rhwymedigaethau sydd fel arall yn gysylltiedig â'r ddyletswydd honno

(2) Ni fydd contract, yn rhinwedd yr adran hon, yn weithredol, oni bai ei fod yn darparu'n benodol, o wneud deiliad sydd wedi cymryd pob gofal rhesymol yn atebol i bobl sy'n ddieithr i'r contract am beryglon oherwydd bod unrhyw waith adeiladu, cynnal a chadw neu atgyweirio neu waith arall tebyg i'w weithredu gan bersonau heblaw ei hun yn cael ei weithredu'n ddiffygiol, ei weision a phobl sy'n gweithredu o dan ei gyfarwyddyd a'i reolaeth.

(3) Yn yr adran hon ystyr "dieithryn i'r contract" yw person nad oes ganddo hawl i elwa ar y contract fel parti iddo neu fel olynydd drwy aseinio neu fel arall i barti iddo ac yn unol â hynny mae'n cynnwys parti i'r contract sydd wedi peidio bod â hawl felly.

(4) Pan fo'r telerau neu'r amodau sy'n rheoli unrhyw denantiaeth (gan gynnwys tenantiaeth statudol nad yw yn y gyfraith gyfystyr â thenantiaeth) mae naill ai'r landlord neu'r tenant y wedi rhwymo , er nid drwy gontract, i ganiatáu i bersonau fynd i mewn neu ddefnyddio eiddo y mae'n ddeiliad arno, bydd yr adran hon yn gymwys fel pe bai'r denantiaeth yn gontract rhwng y landlord a'r tenant.

(5) Mae'r adran hon, i'r graddau y mae'n atal y ddyletswydd gofal cyffredin rhag cael ei chyfyngu neu ei heithrio, yn gymwys i gontractau a wnaed a thenantiaethau a grëwyd cyn dechrau'r Ddeddf hon, yn ogystal â'r rhai a wnaed neu a grëwyd ar ôl ei chychwyn; ond, i'r graddau y mae'n ehangu'r ddyletswydd sy'n ddyledus gan ddeiliad y tu hwnt i'r ddyletswydd gofal cyffredin, dim ond mewn perthynas â rhwymedigaethau a wneir ar ôl y cychwyn hwnnw neu sy'n cael eu hadnewyddu drwy gytundeb (boed yn ddatganedig neu ymhlyg) ar ôl y cychwyn hwnnw y bydd yn cael effaith

**NODIADAU**

**Cychwyn Cyntaf**

***Dyddiad penodedig***

Dyddiad penodedig: 1 Ionawr 1958: gweler adran 8(3).

**Cwmpas**

Nid yw'r Ddeddf hon yn gymwys i'r Alban: gweler adran 8(2).

**Gwybodaeth ddogfennol**

Deddf Atebolrwydd Deiliaid 1957

**Dyddiad gwneud**
06/06/1957

Atgynhyrchwyd o LexisLibrary gyda chaniatâd caredig LexisNexis.

Mae’r wybodaeth a ddangosir fel y mae wedi ei chael ar y dyddiad chwilio, er dibenion enghreifftiol yn unig. Ni ddylid dibynnu ar wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yma y tu allan i ddibenion y cwestiwn enghreifftiol hwn.

Justice of the Peace Law Reports/1997/Rafiq v Folkes - (1997) 161 JP 412

(1997) 161 JP 412

# Rafiq v Folkes

**QUEEN'S BENCH DIVISION (CROWN OFFICE LIST)**

**AULD LJ, POPPLEWELL J**

**22 EBRILL 1997**

**22 EBRILL 1997**

**POPPLEWELL J**

Apêl yw hon ar ffurf achos a ddatganwyd gan Lys y Goron yn eistedd yn Luton yng nghyswllt penderfyniad ar apêl ei hun gan ynadon Bedford.

Ar 24 Ionawr 1996 roedd gwybodaeth a ffafrir gan yr ymatebydd yn erbyn yr apelydd ei fod yn berchennog ar gi penodol o’r enw Venom, a oedd, ar 23 Rhagfyr 1995, yn Souldrop yn Bedford, allan o reolaeth ac yn beryglus mewn man cyhoeddus ac wedi achosi anaf i Jane Russen yn groes i adran 3(1) o Ddeddf Cŵn Peryglus 1991.

Ar 27 Mehefin 1996, gwrandawodd yr ynadon ar yr wybodaeth, cafwyd yr apelydd yn euog o'r cyfryw drosedd ac fe'i rhyddhawyd yn amodol mewn perthynas â hynny am 12 mis, ond dan y Ddeddf gorchmynnodd y dylid dinistrio’r ci a dylai'r apelydd dalu rhai costau.

Gwrandawyd ar yr apêl yn Llys y Goron ar 19 Awst 1996 a chanfuwyd y ffeithiau canlynol. Ar 23 Rhagfyr 1995, roedd yr apelydd yn berchennog Ci Defaid Almaenaidd o’r enw Venom. Roedd yn berchennog gorsaf betrol a siop o’r enw Souldrop Garage yn Souldrop yn swydd Bedford. Ar bob adeg berthnasol roedd yr orsaf betrol a’r siop dan ofal merch yr apelydd yn llwyr.

Tua 5 o'r gloch gyda'r nos ar 23 Rhagfyr 1995 parciodd Ms Russen ei char yn y blaen-gwrt ac aeth i'r siop gyda'r bwriad o brynu un o'r coed Nadolig a oedd yn cael eu gwerthu ar y blaen-gwrt. Daeth o hyd i Venom yn rhydd ar y blaen-gwrt, a chyda chaniatâd llafar merch yr apelydd, gadawodd iddo fynd i mewn i'r siop. Yna prynodd a thalodd am nifer o eitemau a dychwelodd i'r siop er mwyn dychwelyd cyllell yr oedd wedi'i fenthyg. Wrth iddi drosglwyddo'r gyllell dros y cownter, fe wnaeth Venom, a oedd ar ochr y cownter yr oedd gan y cyhoedd fynediad iddo, neidio i fyny a'i brathu ar ei chlun, gan achosi briw bach yno. Canfu Llys y Goron, yn arbennig, nad oedd Venom, cyn iddo neidio i fyny a brathu Jane Russen, wedi rhoi unrhyw arwydd o gwbl o'i fwriad i wneud hynny.

Yna cyflwynwyd dwy ddadl ar ran yr apelydd: yn gyntaf, o dan adran 10(2) na fyddai'r ci wedi bod mewn man cyhoeddus, ac yn ail, o dan adran 10(3) nad oedd y ci allan o reolaeth ac yn beryglus. Canfu Llys y Goron fod y ci mewn man cyhoeddus ac nad yw'r ddadl honno wedi ei dilyn ger ein bron.
Dywedodd Llys y Goron:

Roeddem o'r farn nad oedd y darn a enwyd [y cyfeirir ato gan Kennedy LJ yn achos R v Bezzina [1994] 1 WLR 1057 ar dudalen 1061], fel yr honnwyd gan yr apelydd, yn obiter dicta, ond yn ymgorffori'r gymhareb o'r achos, a'n bod wedi rhwymo felly i ddal bod y ci a enwyd allan o reolaeth ac yn beryglus mewn man cyhoeddus, er nad oedd wedi dangos unrhyw arwydd o ymddygiad ymosodol cyn i'r anaf ddigwydd."

Gellir nodi'r darpariaethau statudol sy'n rheoli'r achos hwn yn gryno. Cyflwynwyd Deddf Cŵn Peryglus 1991, fel y mae'n adnabyddus ar frys mawr gan y Senedd i ddelio â nifer o ddigwyddiadau annymunol lle'r oedd nifer o gŵn ffyrnig wedi anafu plant bach yn ddifrifol. Mae'n ddarn o ddeddfwriaeth Delffig sydd hyd yn oed yn waeth na rhai o'r cyfarwyddebau sy'n deillio o Ewrop. Mae adran 3(1) yn nodi:

Os yw ci allan o reolaeth ac yn beryglus mewn man cyhoeddus:

(a) mae'r perchennog; ac

(b) os yw'n wahanol, y person sydd ar y pryd yn gyfrifol am y ci, yn euog o drosedd, neu, os yw'r ci tra'n allan o reolaeth yn anafu rhyw berson, yn drosedd waethygedig, o dan yr is-adran hon.

Mae is-adran (3) yn nodi:

Os yw'r perchennog neu, os yw'n wahanol, y person sy'n gyfrifol am y ci ar y pryd yn caniatáu iddo fynd i fan nad yw'n fan cyhoeddus ond lle na chaniateir iddo fod, a thra mae yno:

(a) ei fod yn anafu unrhyw un; neu

(b) (b) bod sail i gredu'n rhesymol y bydd yn gwneud hynny, mae'n euog o drosedd, neu, os yw'r ci yn anafu unrhyw un, trosedd waethygedig, o dan yr is-adran hon."

Mae'r ymadrodd "allan o reolaeth ac yn beryglus" yn ddarostyngedig i ddehongliad dan adran 10(3):

At ddibenion y Ddeddf hon ystyrir bod ci allan o reolaeth ac yn beryglus ar unrhyw achlysur lle mae sail resymol dros gredu y bydd yn anafu unrhyw un, p'un a yw'n gwneud hynny ai peidio. . .

Cyflwyniad yr apelydd, a gyflwynwyd yn dda i'r Llys hwn gan Miss Panagiotopoulo, yw drwy anwybyddu unrhyw ganfyddiad bod amheuaeth resymol, nad oedd yn agored i Lys y Goron ganfod bod y ci hwn allan o reolaeth ac yn beryglus. Mae'r cyflwyniad hwnnw'n seiliedig ar ddehongliad o adran 3(1) ac adran 10(3). Nodir y byddai'n syml iawn yn adran 3(1) i ddweud bod ci "allan o reolaeth" os yw'n anafu unrhyw un. Ymhellach, ni fyddai adran 3(1)(b) yn darllen fel y mae'n ei wneud, os oedd anaf i berson yn golygu bod ci "allan o reolaeth" fel y cyfryw. Tynnodd ein sylw at adran 3(3) lle mae gwahaniaeth penodol rhwng anaf i berson a sail pryder rhesymol. Mae'n nodi bod y geiriad yn adran 1(b) yn wahanol. Yn fwy penodol yn adran 10(3),  mae'n amlwg, ar sail gwir ddehongliad, fod yn rhaid cael rheswm dros bryder rhesymol, a bod anafiadau yn amherthnasol. Pe bai wedi'i  fwriadu bod anaf yn arwain at ganfod anifail "allan o reolaeth ac  yn beryglus", ni fyddai  unrhyw beth wedi bod yn haws nag yn yr adran ddehongli, fel petai.

Derbyniodd, dan rywfaint o bwysau gan y Llys, rwy'n credu,  fod y ddadl yn gwbl wag o resymeg am y rheswm hwn: mae'n bosibl y bydd achosion pan fydd ci yn ymddwyn  mewn modd sy'n achosi pryder rhesymol heb anafu rhywun. Mae'n derbyn, os bydd y ci yn gwneud hynny, heb unrhyw rybudd, y bydd y perchennog yn euog o drosedd. Yn ail, os oes sail resymol dros bryderu a bod rhywun wedyn yn cael ei frathu ac nad oes rhybudd ymlaen llaw, unwaith eto bydd y perchennog yn euog o drosedd. Fodd bynnag, os yw'r ci, heb unrhyw rybudd ymlaen llaw a heb i'r  person a anafwyd, neu unrhyw un, o fod â chred resymol y bydd y ci yn anafu rhywun, yn anafu rhywun mewn gwirionedd, nid yw'r perchennog yn euog o drosedd. Felly, yn absenoldeb rhybuddion ymlaen llaw mewn un ystyr, po fwyaf peryglus yw'r ci, yn yr ystyr ei fod wedi brathu, y lleiaf y cyfrifoldeb, dywedir, sydd ar y perchennog. Mae hynny'n mynd yn groes i bob rhesymeg.

Cyflwynodd yr erlyniad eu hachos mewn dwy ffordd, mewn gwirionedd. Maent yn cyflwyno'r geiriau "ar unrhyw achlysur" yn adran 10(3) fel eu bod yn golygu os caiff rhywun ei frathu heb bryder rhesymol ar unrhyw achlysur blaenorol, mae'n dilyn bod trosedd wedi digwydd oherwydd ei  fod yn  beryglus o ddi-reolaeth ar yr achlysur penodol hwnnw. Bydd y brathu yn golygu "allan o reolaeth ac yn beryglus" oherwydd, ar yr achlysur hwnnw, mae'n rhoi sail dros bryder rhesymol  wedi hynny.

Yn ail, cyflwynir, o ystyried penderfyniad y Llys Apêl Droseddol yn Belzzina, y bu pryder rhesymol yn union cyn yr anaf. Dywedodd Mr Jupp, ar sail ffeithiau'r achos yn y fan a'r lle, fod hynny'n rhan annatod o ganfyddiad y Llys. Nid wyf fi, o'm rhan i, o'r farn honno. Canfyddiad y Llys oedd bod y ci wedi neidio a'i brathu, ac nad oedd y ci wedi dangos unrhyw arwydd o ymddygiad ymosodol cyn achosi'r anaf dan sylw. Petai'r Llys wedi bwriadu gwneud canfyddiad o bryder rhesymol ymlaen llaw, byddai wedi dweud hynny.

Roedd achos Belzzina yn y Llys Apêl Droseddol, dan lywyddiaeth gan Arglwydd Ustus Kennedy, a gofnodwyd yn [1994] 3 All ER ar dudalen 964, yn delio â thair apêl wahanol yn erbyn euogfarn lle, ar sail y dystiolaeth, mae'n ymddangos ei bod yn debygol bod sail resymol dros bryderu cyn i'r anaf ddigwydd. Fodd bynnag, mae'r darn y tynnodd Mr Jupp ein sylw ato, ac yr oedd yn dibynnu arno, ar dudalen 968 ychydig o dan y llythyren I, lle dywedodd yr Arglwydd Ustus Kennedy hyn:

Yn amlwg, mae telerau adran 3(1), os cânt eu darllen fel rhai sy'n gosod atebolrwydd caeth, yn agored i gael yr effaith honno.  Yn unol â hynny, deuwn i'r casgliad bod rhaid darllen telerau'r statud yn adran 3(1) yn y modd a nodwyd gennym ar ddechrau'r dyfarniad hwn. Mewn geiriau eraill, pan fydd rhywun yn dod ar draws y geiriau yn adran 3(1) - 'allan o reolaeth ac yn beryglus' - mae un yn cymhwyso'r ystyr a nodir yn adran 10(3) ac mae hynny'n golygu, i bob pwrpas, os yw ci mewn man cyhoeddus, os dangosir mai'r sawl a gyhuddir yw perchennog y ci, os yw'r ci allan o reolaeth ac yn beryglus yn yr ystyr y dangosir bod y ci yn gweithredu mewn ffordd sy'n rhoi sail resymol i'r gred y byddai'n anafu unrhyw un, byddai atebolrwydd yn codi. Wrth gwrs, os bydd anaf yn digwydd, yna,ar yr wyneb, mae'n rhaid bod sail, yn union cyn i'r anaf ddigwydd, dros gredu'n rhesymol y byddai'r anaf yn digwydd."

Mae Mr Jupp yn derbyn bod hynny'n obiter, er bod y Barnwr Hickman o farn gwbl wahanol. O'm rhan i, ni fyddwn yn dilyn y trywydd penodol hwnnw. Mae'n ymddangos i mi, er mwyn rhoi rhywfaint o resymeg yn yr achos hwn, mae'r ffordd briodol o fynd i'r afael â'r achosion hyn yw cymryd y farn, os ceir brathiad heb bryder rhesymol yn union cyn hynny, bod defnyddio'r gair "unrhyw achlysur" yn ddigonol i osod atebolrwydd oherwydd bod sail wedi hynny i gredu'n rhesymol y bydd yn anafu rhyw berson arall. Roedd

y cwestiwn a ofynnwyd gan Lys y Goron yn cyfeirio at y darn rwyf newydd gyfeirio ato o benderfyniad y Llys Apêl Droseddol. Fel yr wyf wedi ei ddweud, o'm rhan i, nid wyf yn ymdrin â'r mater yn y modd hwnnw.

Fodd bynnag, deuaf i'r casgliad clir bod yr euogfarn hon yn un gywir a bod yr ateb i'r cwestiwn, "A oeddent yn gywir wrth gael yr apelydd yn euog o drosedd?" yn " Oeddent", ond am resymau ychydig yn wahanol i'r rhai a nodwyd gan Lys y Goron. Byddwn yn cadarnhau'r euogfarn.

**Yr Arglwydd Ustus Auld**

Rwy'n cytuno ac yn dymuno ychwanegu ychydig eiriau'n unig. Rwy'n cael rhywfaint o anhawster gyda chynnig yr Arglwydd Ustus Kennedy yn Bezzina, ar dudalen 969(a), sef os oes anaf, mae'n rhaid bod rheswm dros y pryder rhesymol yn union cyn i'r anaf ddigwydd. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gall yr amser ar gyfer pryder, hyd yn oed gan dyst rhesymol tybiannol, fod mor fychan fel ei fod yn ddibwys o ran dibenion ymarferol. Mae'r syniad o bryder rhesymol ynghylch anaf cyn iddo ddigwydd mewn amgylchiadau o'r fath yn artiffisial a dylai'r Llys ymdrechu i beidio ag ychwanegu'r elfen anhapus honno at luniad statudol sydd eisoes yn anodd. Mae'n ymddangos i mi fod yr Arglwydd Ustus Kennedy yn y darn hwnnw'n canolbwyntio'n ddiangen ar yr anaf fel pe bai'n benllanw ac arddangosiad angenrheidiol o ofn rhesymol o anaf. Yn fy marn i, nid oes angen dull o'r fath. Mae gweithred ci sy'n achosi anaf, p'un ai'n frathiad neu fel arall, ynddo'i hun yn gallu bod yn ymddygiad sy'n rhoi sail dros bryder rhesymol ynghylch anaf.

Yn unol â hynny, byddwn yn ateb y cwestiwn naill ai gyda "Ie" neu "Na" amodol sy'n cadarnhau'r gollfarn, oherwydd, ar sail barn Llys y Goron ar y dystiolaeth o'i flaen, roedd y brathiad ei hun, yn ôl y gyfraith, yn sail dros bryderu y byddai'r ci yn peri anaf eto. Felly, cadarnheir yr euogfarn.

*Gwrthodwyd yr apêl.*

# Trafodaeth ar yr ateb

**Ymchwil gyfreithiol: Pwyntiau i'w nodi**

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer ymchwil gyfreithiol fel a ganlyn:

**Sgiliau**

1. Nodi a defnyddio ffynonellau a gwybodaeth berthnasol.

2. Darparu cyngor sy'n canolbwyntio ar y cleient ac sy'n mynd i'r afael â phroblem y cleient.

3. Defnyddio iaith glir, fanwl, gryno a derbyniol.

**Cymhwyso'r gyfraith**

4. Cymhwyso'r gyfraith yn gywir i sefyllfa'r cleient.

5. Cymhwyso'r gyfraith yn gynhwysfawr i sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw fater ymddygiad moesegol a phroffesiynol a defnyddio barn i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll.

Mae'r marcio yn cael ei wneud gan gyfreithwyr sydd wedi cael eu hyfforddi fel aseswyr ac y mae eu gwaith marcio wedi ei safoni. Mae'n seiliedig ar farn broffesiynol fyd-eang yn hytrach na dull blwch ticio neu restr wirio.

Y man cychwyn ar gyfer y penderfyniadau proffesiynol cyffredinol hyn yw safon cymhwysedd yr asesiad, sef safon Cyfreithiwr ar y Diwrnod Cyntaf (Y Safon Trothwy). Mae marcwyr yn hyblyg o ran y dull a ddefnyddir gan yr ymgeisydd.

Mae marcio'n seiliedig ar berfformiad ar bob un o'r meini prawf asesu a farnwyd ar raddfa o A i F fel a ganlyn:

A: Perfformiad eithriadol: llawer uwch na gofynion cymhwysedd yr asesiad

B: Yn amlwg yn foddhaol: yn cyrraedd gofynion cymhwysedd yr asesiad yn glir

C: Pasio ymylol: ar y cyfan, dim ond yn cyrraedd gofynion cymhwysedd yr asesiad

D: Methiant ymylol: ar y cyfan, yn methu cyrraedd gofynion cymhwysedd yr asesiad o ychydig

E: Yn amlwg yn anfoddhaol: yn amlwg ddim yn cyrraedd gofynion cymhwysedd yr asesiad

F: Perfformiad gwael: llawer yn is na gofynion cymhwysedd yr asesiad

I gael rhagor o fanylion am y marcio, edrychwch ar y Fanyleb Asesu a'r Polisi Marcio a Chymedroli (i'w gyhoeddi). Mae'r Fanyleb Asesu yn rhoi rhagor o wybodaeth am yr hyn a olygir wrth iaith glir, fanwl, gryno a derbyniol, a defnydd cywir a chynhwysfawr o'r gyfraith.

Yn yr asesiad hwn, mae rhai, neu bob un, o'r ffynonellau a ganlyn yn berthnasol i'r cwestiwn:

Blackstone's Criminal Practice 2020 B20.5 - B20.9

Deddf Cŵn Peryglus 1991, adrannau 1-3

Deddf Cŵn Peryglus 1991, adran 10

Rafiq v Folkes (1997) 161 JP 412

Nid yw'r ffynonellau a ganlyn yn berthnasol i'r cwestiwn:

Atkins Court Forms/Animals V4/Practice/7, paragraffau 7, 9-10, [607, 609-610]

Charlesworth & Percy on Negligence 14th Ed. Rhan IV, Pennod 15, Adran 2, paragraffau 15.07 - 15.13, 15.47 - 15.56

Halsbury's Laws, Animals, V2, paragraff 46 (*t 27*)

Deddf Atebolrwydd Deiliaid 1957, adrannau 1-3

Mae'r **pwyntiau cyfreithiol allweddol** yn cynnwys y canlynol:

Mae'n debygol bod Keith wedi cyflawni'r drosedd gwaethygedig dan adran 3(1) Deddf Cŵn Peryglus 1991.

Deddf Cŵn Peryglus 1991, adran 3:

(1) Os yw ci allan o reolaeth ac yn beryglus mewn [unrhyw le yng Nghymru neu Loegr] (p'un a yw'n fan cyhoeddus ai peidio)]—
(a) mae'r perchennog; ac
(b) os yw'n wahanol, y person sy'n gyfrifol am y ci ar y pryd,
yn euog o drosedd, neu, os yw'r ci, tra'i fod allan o reolaeth, yn anafu unrhyw berson neu gi cymorth, yn euog o drosedd waethygedig, o dan yr is-adran hon.

Diffinnir 'allan o reolaeth ac yn beryglus' gan adran 10 o'r Ddeddf:

(3)At ddibenion y Ddeddf hon, ystyrir bod ci allan o reolaeth ac yn beryglus ar unrhyw achlysur lle mae sail resymol dros gredu y bydd yn anafu unrhyw berson neu gi cymorth, p'un a yw'n gwneud hynny ai peidio, ond nid yw cyfeiriadau at gi sy'n anafu person [neu gi cymorth] neu sy'n sail dros bryder rhesymol y bydd yn gwneud hynny yn cynnwys cyfeiriadau at unrhyw achos lle bod y ci yn cael ei ddefnyddio at ddiben cyfreithiol gan gwnstabl neu berson yng ngwasanaeth y Goron.

Mae cyfraith achosion berthnasol yn cynnwys Rafiq v Folkes (1997) 161 JP 412; a hefyd (fel y dyfynnwyd yn Blackstone's) *Bezzina* [1994] 3 All ER 964 a *Robinson-Pierre* [2013] EWCA Crim 2396, [2014] 1 WLR 2368.

**Nodyn ar atebion sampl:**

**Rhoddir dau ateb enghreifftiol (Sampl A a Sampl B). Nid yw'r un ateb yn berffaith nac yn ateb enghreifftiol, ac mae pwyntiau eraill y gellid eu gwneud yn y naill a'r llall. Ni ddylech gymryd yn ganiataol bod popeth yn y samplau yn gywir. Mae A yn ateb cryfach na B ond mae'r ddau yn cyrraedd y Safon Trothwy.**

**SAMPL A** **(gweler y nodyn ar atebion sampl, tudalen 39)**

## Cyngor i'r cleient

Dylem gynghori'r cleient ei bod yn debygol ei fod wedi cyflawni trosedd mewn perthynas â'r digwyddiad lle rhedodd Digger allan o'r tŷ a brathu postmon.

Y drosedd yw methu â chadw ci dan reolaeth briodol dan adran 3(1) Deddf Cŵn Peryglus 1991 (y 'Ddeddf'). Mae adran 3(1) o'r Ddeddf yn darparu ei bod yn drosedd cael ci 'allan o reolaeth ac yn beryglus' mewn unrhyw fan (p'un a yw'n fan cyhoeddus ai peidio). Mae'r drosedd yn waeth os yw'r ci yn anafu rhywun tra ei fod allan o reolaeth mewn modd peryglus. Yn anffodus, brathodd Digger y postmon.

Diffinnir 'allan o reolaeth  ac yn beryglus' gan adran 10 o'r Ddeddf ac mae'n ymdrin â'r sefyllfa lle mae sail i gredu'n rhesymol y bydd y ci yn achosi anaf i unrhyw berson. Rhedodd Digger allan o'r tŷ cyn iddo frathu'r postmon, a fyddai'n fwy na thebyg wedi achosi pryder rhesymol ynghylch yr anaf. Beth bynnag, mae cyfraith achosion wedi sefydlu, hyd yn oed os bydd ci yn brathu'n ddi-rybudd, fod hyn ynddo'i hun yn gallu bod yn ymddygiad sy'n rhoi sail dros bryder rhesymol am anaf. Felly, mae'n ymddangos bod Digger 'allan o reolaeth ac yn beryglus'.

Mae'r drosedd yn un o atebolrwydd caeth ac nid yw'n gofyn am unrhyw fai o ran y cleient. Mae'n mynnu bod rhywfaint o weithred neu anwaith oo dŷ'r cleient (lle bo bai neu beidio) yn cyfrannu'n fwy nag ychydig at y ffaith bod y ci allan o reolaeth. Fodd bynnag, gan mai'r cleient a agorodd y drws, gan adael i'r ci redeg allan, mae hyn yn amlwg yn cael ei fodloni.

Felly, yn anffodus, mae'n debygol bod y cleient wedi cyflawni'r drosedd gwaethygedig o dan adran 3(1) y Ddeddf.

## Rhesymu cyfreithiol sy'n cyfeirio at ffynonellau neu awdurdodau allweddol

Deddf Cŵn Peryglus 1991, adran 3
(1) Os yw ci allan o reolaeth ac yn beryglus mewn [unrhyw le yng Nghymru neu Loegr](p'un a yw'n fan cyhoeddus ai peidio)]—
(a) mae'r perchennog; ac
(b) os yw'n wahanol, y person sy'n gyfrifol am y ci ar y pryd,
yn euog o drosedd, neu, os yw'r ci, tra'i fod allan o reolaeth, yn anafu unrhyw berson neu gi cymorth, yn euog o drosedd waethygedig, o dan yr is-adran hon.

Diffinnir allan o reolaeth a pheryglus gan adran 10 o'r Ddeddf.
(3) At ddibenion y Ddeddf hon, ystyrir bod ci allan o reolaeth ac yn beryglus ar unrhyw achlysur lle mae sail resymol dros  gredu y bydd yn anafu unrhyw berson neu gi cymorth,  p'un a yw'n gwneud hynny ai peidio, ond nid yw cyfeiriadau at gi sy'n anafu person neu sy'n sail dros bryder rhesymol y bydd yn gwneud hynny yn cynnwys cyfeiriadau at unrhyw achos lle bod y ci yn cael ei ddefnyddio at ddiben cyfreithlon gan gwnstabl neu berson yng ngwasanaeth y Goron.

Yn Rafik v Folines (1997) 161 JP 412, yn ôl yr Arglwydd Ustus Auld, *"mae'r weithred o achosi anaf, yn frathiad neu fel arall, ynddo'i hun yn gallu bod yn sail dros bryder rhesymol o anaf"*.

Mae Robinson-Pierre [2013] EWCA Crim 2396, [2014] 1 WLR 2368 fel y dyfynnwyd yn Blackstone's Criminal Practice: adran 3(1) yn gofyn am *'brawf o weithred neu anwaith gan y diffynnydd (gyda neu heb fai) sy'n golygu bod rhywfaint yn fwy na'r radd isaf wedi achosi neu wedi caniatáu i'r sefyllfa waharddedig ddigwydd'* (yn achos Pitchford LJ yn [42]).

**SAMPL B** **(gweler y nodyn ar atebion sampl, tudalen 39)**

**Cyngor i'r cleient**

Mae Keith yn debygol o gael ei ddyfarnu'n euog o drosedd dan adran 3 Deddf Cŵn Peryglus 1991. Mae Keith wedi cyflawni trosedd waethygedig dan Ddeddf Cŵn Peryglus 1991, gan fod Digger allan o reolaeth ac yn beryglus, a arweiniodd ato'n anafu person, sef y postmon.

Yn anffodus, nid oes gan Keith unrhyw amddiffyniad i'r drosedd hon ar sail ffeithiau'r achos hwn.
Byddai Digger yn cael ei ystyried allan o reolaeth ac yn beryglus gan ei fod wedi rhedeg allan o'r tŷ at y postmon er mwyn ymosod arno. Ar yr adeg honno, byddai gan y postmon sail dros bryder rhesymol y byddai Digger wedi'i anafu.

Mae'n werth nodi na fyddai Keith yn euog o'r drosedd dan adran 3 pe bai hwn yn 'achos deiliad tŷ'. Diffinnir achos deiliad tŷ o dan Ddeddf Cŵn Peryglus 1991 fel pan fo ci allan o reolaeth ac yn beryglus mewn adeilad neu ran o adeilad a bod y person y mae'r ci allan o reolaeth ac yn beryglus tuag ato yn dresmaswr. Nid yw hwn yn achos deiliad tŷ gan nad oedd y postmon yn dresmaswr.

Gall atebolrwydd sifil am niwed a achosir gan gŵn godi dan y Ddeddf Atebolrwydd Deiliaid – gallai fod yn ddefnyddiol rhoi gwybod iddo am hyn hefyd.

**Rhesymu cyfreithiol sy'n cyfeirio at ffynonellau neu awdurdodau allweddol**

Deddf Cŵn Peryglus 1991, adran 3 - os yw ci *'allan o reolaeth ac yn beryglus'* mewn unrhyw fan yng Nghymru neu Loegr, yna bydd y perchennog yn euog o drosedd, ac os bydd y ci yn anafu unrhyw berson, bydd y perchennog yn euog o drosedd waethygedig.

Adran 3 [(1A) Nid yw person ("D") yn euog o drosedd o dan is-adran (1) mewn achos sy'n achos deiliad tŷ.
(1B) At ddibenion is-adran (1A) mae "achos deiliad tŷ" yn achos lle—

(a) mae'r ci allan o reolaeth ac yn beryglus tra'i fod mewn adeilad neu'n rhannol mewn adeilad, neu rhannol mewn adeilad, sy'n annedd neu'n llety lluoedd arfog (neu'r ddau), a
(b) ar yr adeg honno—
   (i) os yw'r person y mae'r ci allan o reolaeth ac yn beryglus ('V') mewn perthynas ag ef yn yr adeilad, neu os yw'n mynd i mewn i'r adeilad neu rhan o'r adeilad fel tresbaswr, neu
   (ii) os oedd D (os oedd yn bresennol ar y pryd) yn credu bod V yn yr adeilad, neu'n mynd i'r(ii)

Adran 10(3) Deddf Cŵn Peryglus 1991 er mwyn profi bod ci '*allan o reolaeth ac yn beryglus*' ar unrhyw achlysur, rhaid dangos bod '*sail dros bryder rhesymol*' y byddai'n anafu unrhyw berson.

Mae *Blake v CPS* [2017] EWHC 1608 (gweinyddol) (fel y nodir yn Blackstone's Criminal Practice) yn nodi y gellir cyflawni'r drosedd mewn man preifat yn ogystal ac mewn man cyhoeddus, ac mae'n cynnwys ymwelwyr â'r cartref, fel postmyn.

Deddf Atebolrwydd Deiliaid 1957 adran 2 Mae gan ddeiliad eiddo'r "*ddyletswydd gofal cyffredin*" i "*gymryd gofal o'r fath fel yn holl amgylchiadau'r achos sy'n rhesymol i sicrhau bod yr ymwelydd yn rhesymol ddiogel wrth ddefnyddio'r eiddo at y dibenion y mae'n cael ei wahodd neu y caniateir iddo fod yn ddeiliad*".


Sampl: ymchwil gyfreithiol (trafodaeth ar yr ateb) Tudalen 41 o 42